CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT
NEATH PORT TALBOT COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol 2015-16

**Nicola Pearce – Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**RHAGAIR**

Gan mai fi yw Aelod Cabinet Datblygu Economaidd a Gwasanaethau Eiddo, fi sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth Gynllunio yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ni ellir tanbrisio cyfraniad y gwasanaeth Cynllunio i sicrhau dyheadau adfywio ehangach y Cyngor. Trwy'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a phenderfyniadau Rheoli Datblygu unigol, rydym ni'n creu rhywle lle mae pawb yn cael cyfle cyfartal i fod yn fwy iach, hapus, diogel a ffyniannus. Mae hyn yn ei dro yn gwella iechyd a llesiant ein cymunedau ac yn sgîl hynny ansawdd bywyd i bawb.

Y Cynghorydd Anthony Taylor, Aelod Cabinet Gwasanaethau Eiddo ac Economaidd.

**Y CYD-DESTUN DAEARYDDOL**

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi'i lleoli ar yr arfordir rhwng Dinas a Sir Abertawe i'r gorllewin a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Rydym hefyd yn rhannu ffiniau a nodweddion gyda Sir Gaerfyrddin, Powys, Rhondda Cynon Taf a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r Awdurdod hefyd yn ffurfio rhan o Ddinas-ranbarth ehangach Bae Abertawe, a dyma'r awdurdod cyswllt rhwng Gorllewin a De Cymru. Yn dilyn ei ddynodiad yn gynharach eleni, mae'r Sir hefyd yn gartref i'r Parth Menter mwyaf yng Nghymru, y cododd yr angen amdano o'r dirywiad economaidd yn y diwydiant dur, a fu yn ei dro yn peryglu gweithrediad parhaus gwaith dur Port Talbot, sef y cyflogwr mwyaf yn yr ardal leol. Rhagwelir y bydd y dynodiad hwn yn rhoi hwb i ddatblygiad economaidd o fewn yr ardal leol, a fydd yn arwain at fanteision deilliadol i'r rhanbarth ehangach.

Mae gan y Fwrdeistref Sirol boblogaeth breswyl o 139,800 (Cyfrifiad 2011), mae'n cwmpasu ardal o fwy na 44,217 hectar, a gellir rhannu nodweddion ffisegol y Fwrdeistref Sirol, yn fras, i'r ddau faes canlynol; coridor yr arfordir a'r cymoedd.

Mae coridor yr arfordir yn cwmpasu llain arfordirol gymharol gul sy'n estyn o amgylch Bae Abertawe, ac yno y lleolir y prif ganolfannau poblogaeth, cyflogaeth, a choridor yr M4. Mae prif drefi ac aneddiadau Castell-nedd a Phort Talbot yn dal yn brif ffocws ar gyfer adeiladu tai, a hynny yn y farchnad breifat ac ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Nodweddir y cymoedd gan dirlun deniadol dyffrynnoedd afonydd, wedi'u gwahanu gan lwyfannau ucheldir a mynyddoedd. Maent yn wledig eu natur ac yn cynnwys cymunedau ar wasgar ar eu hyd. Er bod nodweddion a hunaniaeth unigol gref i'r cymoedd unigol, maent yn rhannu nodweddion a phroblemau cyffredin. Yn hanesyddol, mae adeiladu tai ar raddfa fawr wedi cael ei gyfyngu'n bennaf i Bontardawe a phen uchaf Cwm Tawe.

**Y Cyd-destun Corfforaethol**

O ganlyniad i nod y Cyngor o sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaeth a'r arbedion ariannol cysylltiedig, mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi ailstrwythuro rhai o'r gwasanaethau rheoliadol i gynyddu arferion gweithio ar y cyd. Arweiniodd hyn at wneud y Gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach yn rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio, a ailfrandiwyd yn 'Wasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd'. Mae cyfuno'r gwasanaethau

hyn wedi darparu cyfleoedd i leihau'r gwaith sy'n cael ei ddyblygu a thrwy hynny gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Arweiniodd hefyd at arbediad o £130,000 yn y gyllideb ar unwaith. Esbonnir y rhain yn llawer manylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn rhan o Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, sef un o'r pedair Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor, y mae pob un ohonynt yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Yn ogystal â Chynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, mae tri Phennaeth Gwasanaeth arall yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, sy'n cynnwys Pennaeth Gofal Strydoedd, Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth a Phennaeth Eiddo ac Adfywio. Mae pob un o'r Pedair Cyfarwyddiaeth yn gweithio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol:

**Dyfodol Disglair mwy Diogel -** Gwella'r canlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal trwy wella perfformiad Adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y Cyngor.

**Gwell Ysgolion, Rhagolygon mwy Disglair** - Codi safonau addysg a chyrhaeddiad pob person ifanc.

**Gwella Canlyniadau, Gwella Bywydau -** Mwyafu nifer yr oedolion sy'n gallu byw'n annibynnol gyda neu heb gefnogaeth yn eu dewis gartref yn y gymuned.

**Ffyniant i Bawb -** Cefnogi a buddsoddi yn ein canol trefi a'n cymunedau i hybu twf economaidd, adfywio a chynaliadwyedd i fwyafu'r cyfleoedd am swyddi a gwella mynediad i gyflogaeth.

**Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu -** Cynyddu canran y gwastraff a gaiff ei ailgylchu a'i gompostio.


**Digidol drwy Ddewis -** Gwella mynediad cwsmeriaid/dinasyddion i wasanaethau a swyddogaeth a ddarperir gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor, a gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau a'r swyddogaethau hynny.

Nid oes gan y Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd flaenoriaeth benodol, ond mae'n cyfrannu at gyflawni'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol i raddau mwy neu lai.

Er bod y swyddogaeth Gynllunio yn rhan o faes gwasanaeth ehangach, bydd yr Adroddiad hwn yn ymdrin yn bennaf â'r swyddogaethau cynllunio traddodiadol a gyflawnir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot.

**Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

Fel y nodwyd uchod mae'r gwasanaeth wedi cael ei estyn ers Ebrill 2016 yn dilyn ei gyfuno â’r gwasanaeth Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach. O ganlyniad i'r cyfuno hwn, crewyd y strwythur canlynol (hyd at lefel y drydedd haen) fel a ganlyn:


Head of Planning & Public Protection
Planning Policy Manager
Development Manager - Planning
Env Health and Trading Standards Manager
Building Control Manager
Countryside & Wildlife - Team Leader
Planning Policy - Team Leader
Development Management Team Leader - West
Development Management Team Leader - East
Food Safety Team Leader
Housing & General Environmental Health Team Leader
Trading Standards Team Leader
Building Control Team Leader - West
Building Control Team Leader - East
Technical & Business Support Team Leader

Mae'r gwasanaeth ehangach hwn yn gweithio ar y cyd i sicrhau'r nod canlynol:

**Nod**
Sefydlu'r fframwaith ar gyfer ffurfio, creu a chyflawni cymunedau cynaliadwy, iach, diogel o ansawdd, i fyw a ffynnu ynddynt.

I sicrhau'r nod hwn, ceisir cyflawni'r weledigaeth ganlynol:

**Gweledigaeth**
Gwasanaeth rhagweithiol a flaenlwythwyd lle mae pawb yn cydweithio i gyflawni diben a rennir, sef hybu a chreu mannau diogel, iach a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddynt. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol, sef sicrhau ffyniant i bawb, a hynny mewn ffordd well, symlach a rhatach.

**Gwerthoedd**
Mae mabwysiadu gwerthoedd cadarn yn allweddol i sicrhau'r nod a'r weledigaeth uchod. Nod y gwasanaeth newydd hwn yw gweithio ar y cyd i fwyafu'r wybodaeth a'r dysgu a rennir, gan wella effeithlonrwydd. Ein bwriad yw helpu ein gilydd i sicrhau gwelliant parhaus, a gwella'r cyfathrebu yn fewnol ac â'n cwsmeriaid allanol. Byddwn ni'n gweithio mewn amgylchedd agored ei natur, a bydd cysondeb, tryloywder a chydraddoldeb yn ganolog i'n holl egwyddorion gweithredu. Byddwn ni'n lleihau gwastraff o fewn ein gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth a gwneud yr hyn sy'n bwysig i'n holl gwsmeriaid.

Mae'r gwasanaethau a gynigir gan y Gwasanaeth Cynllunio traddodiadol o fewn y strwythur cyffredinol hwnnw fel a ganlyn:

**<u>Rheoli Datblygu</u>**

**Ceisiadau Cynllunio**

Mae'r tîm yn delio gyda'r holl geisiadau a gyflwynir o dan ddeddfwriaeth gynllunio gynradd ac eilaidd, gan gynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Y prif fathau o geisiadau yr ymdrinnir â hwy yw:-

- Ceisiadau Cynllunio (llawn, amlinellol neu 'faterion a neilltuwyd')
- Caniatâd Adeilad Rhestredig
- Caniatâd Ardal Gadwraeth
- Ceisiadau am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon neu Ddatblygiad (Presennol ac Arfaethedig)
- Hysbysebion
- Mwynau
- Gwastraff
- Gwaith ar Goed a Amddiffynnir
- Caniatâd Sylweddau Peryglus
- Perthi Uchel
- Clirio Gwrychoedd

**Cyngor Cyn-Ymgeisio**

Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth cyn-ymgeisio ffurfiol i ymgeiswyr/ddatblygwyr. Codir tâl am hyn, ac mae'n gosod cryn bwysigrwydd ar ddarparu'r cyngor gorau posibl i ddarpar ddatblygwr/ymgeisydd cyn bod cais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno. Mae swyddogion yn ceisio hybu datblygiad o ansawdd uchel ac yn defnyddio'r gwasanaeth cyn-ymgeisio i flaenlwytho'r broses ddatblygu, ac felly gyflymu'r broses gynllunio ffurfiol.

**Gorfodi**

Mae'r is-adran Gorfodi yn ymdrin â chwynion ynghylch achosion honedig o dorri'r rheolau cynllunio, sy'n ymwneud yn bennaf â'r canlynol: -

- Gwneud gwaith adeiladu heb ganiatâd, neu ddatblygu heb gydymffurfio â chynlluniau cymeradwy
- Methu cydymffurfio â'r amod(au) a bennwyd ar gyfer caniatâd cynllunio
- Newid defnydd tir neu adeiladau heb ganiatâd
- Tir Blêr
- Gwaith heb ei awdurdodi i amddiffyn coed

**Apeliadau Cynllunio**

Os bydd y Cyngor yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, neu'n ei roi ar sail amodau, yn methu delio â chais o fewn y terfynau amser statudol, neu'n cyflwyno hysbysiad gorfodi, mae gan yr ymgeisydd/y troseddwr honedig hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio. Swyddogion Cynllunio o fewn y tîm sy'n delio gyda phob apêl, y gellir eu clywed trwy ddilyn un o dair gweithdrefn. - Sylwadau Ysgrifenedig; Gwrandawiad neu Ymchwiliad Cyhoeddus.

**Mwynau a Gwastraff**

Mae'r gwasanaeth Mwynau a Gwastraff, gan gynnwys pob cais am waith mwynau, ôl-ofal a gwaith adfer, a monitro safleoedd Mwynau a Thirlenwi sydd eisoes yn bodoli, yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar y cyd â swyddogion yng Nghyngor Sir Caerfyrddin o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth sy'n cael ei adolygu'n achlysurol.

**Cytundebau Adran 106**

Y tîm sy'n gyfrifol am gyd-drafod a monitro cydymffurfiaeth â'r holl gytundebau cyfreithiol a wnaed o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref.

**<u>Polisi Cynllunio</u>**

Mae Polisi Cynllunio yn cynnwys y tîm Polisi Cynllunio a'r tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt. Mae'r timau'n cwmpasu'r meysydd cyfrifoldeb canlynol:

**Polisi Cynllunio**

- **Y Cynllun Datblygu Lleol** – dyletswyddau statudol o ran paratoi, cyflawni, monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hyn yn sicrhau bod datblygiad yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy, wedi'i gynllunio, yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol cytunedig ac amcanion y Cyngor.
- **Sylfaen Dystiolaeth y CDLl** – dyletswyddau o ran cynnal sylfaen wedi'i diweddaru o dystiolaeth i gynnal y CDLl.
- **Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)** – dyletswyddau o ran paratoi llu o CCA, sy'n cyflwyno canllawiau mwy manwl ar bynciau neu safleoedd ynghylch sut bydd polisïau'r CDLl yn cael eu cymhwyso i amgylchiadau neu ardaloedd penodol.
- **Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr -** dyletswyddau o ran paratoi a chyhoeddi Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor, bob 5 mlynedd.
- **Astudiaethau ar y cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai** – dyletswyddau o ran cynhyrchu astudiaethau blynyddol sy'n amlinellu hyd a lled y cyflenwad o dir ar gyfer tai.
- **Teithio Llesol -** dyletswyddau statudol o ran paratoi ac adolygu Map Llwybrau Presennol y Cyngor (ERM) a'r Map Llwybrau Integredig (IRM).
- **Rhwydwaith Beicio -** dyletswyddau o ran datblygu a hybu llwybrau beicio.
- **Noddi Asedau** – dyletswyddau o ran hwyluso'r contract partneriaeth gydag Immediate Solutions, er mwyn cynhyrchu incwm trwy noddi seilwaith/asedau.

**Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt**

- **Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus** - dyletswyddau statudol o ran y rhwydwaith cofrestredig o lwybrau troed, llwybrau ceffyl a chilffyrdd [gan gynnwys y map a'r datganiad terfynol; gwyriadau a chau ffyrdd; gwaith cynnal a chadw ar strwythurau a rhwystrau; a chyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (RoWIP).
- **Y Rhwydwaith Priffyrdd a Fabwysiadwyd -** dyletswyddau o ran cynghori ynghylch cwmpas y rhwydwaith priffyrdd a fabwysiadwyd.
- **Bioamrywiaeth / Ecoleg** – dyletswyddau statudol o ran cynghori ar bob agwedd ar gadwraeth bioamrywiaeth [gan gynnwys rheoli cynefinoedd a chadwraeth rhywogaethau (e.e. ystlumod); Gwarchodfeydd Natur Lleol; Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur; a chyflawni'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol].
- **Coed Cymru -** dyletswyddau o ran cynghori ar greu, rheoli ac ariannu coetir fel rhan o rwydwaith Coed Cymru.

Gan roi sylw i'r swyddogaethau uchod, rôl gyffredinol y Gwasanaeth Cynllunio yw datblygu Cynllun Datblygu cadarn, seiliedig ar dystiolaeth, y gellir ei gyflawni, ac ymgymryd â'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer datblygiadau unigol, yn unol â'r cynllun hwnnw.

Yn dilyn proses hir a manwl o gasglu tystiolaeth ac Archwiliad Cyhoeddus cadarn, llwyddodd y Cyngor i fabwysiadu ein Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Ionawr 2016. Mae cyfnod y Cynllun yn estyn hyd 2026, ac yn disodli Cynllun Datblygu Unedol y Cyngor, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2016.

Mae'r CDLl yn bodoli ochr yn ochr â Chynllun Integredig Sengl y Cyngor (2013-2023), sy'n cyflwyno'r Weledigaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac yn ceisio cyflawni nifer o ganlyniadau o ran iechyd, diogelwch, cynaliadwyedd, ffyniant ac addysg. Paratowyd y CDLl er mwyn darparu mynegiant gofodol o oblygiadau defnydd tir y Cynllun Integredig Sengl, ac mae Gweledigaeth y CDLl yn arbennig yn cydweddu â gweledigaeth gyffredinol y Cyngor, fel y'i nodwyd yn y Cynllun Integredig Sengl.

Ar ben hynny, mae amrywiaeth o strategaethau a datganiadau polisi rhanbarthol a lleol sy'n darparu fframwaith ar gyfer y CDLl. Mae rhai o'r strategaethau allweddol hyn yn cynnwys:

- Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-2020);
- Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2014);
- Cynllun Rheoli'r Morlin (2010);
- Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (2013);
- Strategaeth Twf Economaidd ar gyfer De-orllewin Cymru (2013-2030);
- Strategaeth Adfywio Glannau Castell-nedd Port Talbot (2011);
- Strategaeth Tai Lleol Castell-nedd Port Talbot (2015-2020);
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Castell-nedd Port Talbot (2014);
- Strategaeth Amgylcheddol Castell-nedd Port Talbot (2008-2026); a
- Chynllun Gweithredu Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Datblygu Twristiaeth (2011-2014).

Mae'r CDLl yn cwmpasu ystod eang o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac mae amcanion y Cynllun yn darparu synergedd â Chynllun Gofodol Cymru - h.y. adeiladu cymunedau iach a chynaliadwy; hybu economi gynaliadwy; gosod gwerth ar ein hamgylchedd; cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a pharchu unigrywiaeth. Mae'r CDLl yn ceisio cyflawni rôl Castell-nedd Port Talbot o ran cefnogi nodau, amcanion a dyheadau ehangach y Ddinas-Ranbarth.

**Yr Economi a Chyflogaeth**

Mae cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys cyfran gymharol uchel o swyddi yn y sectorau gweithgynhyrchu a chyhoeddus, a chyfran gymharol isel yn y sector gwasanaeth. Mae'r canolbwynt cyflogaeth wedi'i leoli'n bennaf ar hyd coridor yr arfordir, a Tata Steel a'r Cyngor yw'r cyflogwyr mwyaf. Yn y Cymoedd, ceir y cyflogwyr mwyaf yn y diwydiannau echdynnu mwynau, gyda gweddill y boblogaeth yn cael eu cyflogi mewn mentrau bach a chanolig.

Mae nifer sylweddol uwch o bobl yn teithio allan o'r Fwrdeistref Sirol i gael hyd i waith nag sy'n teithio i mewn iddi. Mae'r patrwm hwn ar gyfer teithio i'r gwaith yn adlewyrchu'r ffaith fod y Fwrdeistref Sirol yn rhan o ardal ehangach teithio i'r gwaith Bae Abertawe. Mae'r banc tir o dir diwydiannol sydd â mynediad hwylus i'r ffordd, y rheilffordd a'r môr yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn yr is-ranbarth, fel y bydd Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd y Brifysgol a Phentref Trefol Coed Darcy.

**Trafnidiaeth a Seilwaith**

Mae'r isadeiledd allweddol o ffyrdd a rheilffyrdd yn croesi coridor yr arfordir, ac yn darparu sylfaen i'r Fwrdeistref Sirol fel ardal gyflogaeth allweddol o fewn yr is-ranbarth, drwy ddarparu cysylltiadau

i'r dwyrain, trwy gyfrwng yr M4 a'r rheilffordd, i Gaerdydd a'r tu hwnt, i'r gorllewin i Abertawe ac i Ganolbarth Lloegr ar hyd ffordd Blaenau'r Cymoedd (Cefnffordd), yr A465. Bernir bod y dociau ym Mhort Talbot hefyd yn un o asedau'r ardal, gan eu bod yn darparu ar gyfer llwythi cyffredinol, yn ogystal â chyfleusterau dŵr dwfn ar gyfer llwythi swmpus.

**Adnoddau Naturiol**

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys adnoddau mwynol, ar ffurf glo ac agregau, sy'n arwyddocaol ar raddfa'r Deyrnas Unedig. Maent hefyd yn bwysig o ran eu cyfraniad at economi Cymru ac yn fwy lleol o ran cyflogaeth.

Mae adnoddau glo oddi tan y Fwrdeistref Sirol gyfan fwy neu lai. Mae glo wedi cael ei gloddio'n helaeth o fewn yr ardal ers canrifoedd ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at greu a chynnal llawer o gymunedau'r cwm. Mae'r ddwy brif chwarel cerrig caled yn yr ardal, Gilfach (Castell-nedd) a Chwm Nant Lleici (Pontardawe), yn cyflenwi agregau manyleb uchel i amrywiol farchnadoedd.

Yn sgîl ardaloedd ucheldir helaeth y Fwrdeistref Sirol, mae cyfle sylweddol hefyd i fanteisio ar adnodd y gwynt. Mae dwy o'r Ardaloedd Chwilio Strategol (AChS E ac AChS F) a nodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u lleoli mewn man amlwg yn yr ardal weinyddol, ac yn dilyn eu dynodi, bu cryn ddiddordeb ymhlith datblygwyr yn yr ardal.

**Cyd-destun hanesyddol/tirlun yr ardal**

**Treftadaeth**

Mae gan yr ardal gyfoeth o asedau hanesyddol, archaeolegol a phensaernïol, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â hanes diwydiannol yr ardal o ran glo, haearn, dur a chopr. Mae hefyd yn cynnwys llawer o olion archaeolegol hŷn, sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion pwysig yn yr ardal, sy'n creu unigrywiaeth lleol. Mae llawer ohonynt, megis Parc Margam a'r rhwydwaith camlesi, hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden.

Cydnabyddir treftadaeth hanesyddol yr ardal trwy amrywiaeth o ddynodiadau. O fewn y Fwrdeistref Sirol, mae 2 Dirlun dynodedig o Ddiddordeb Hanesyddol, 6 Pharc a Gardd Hanesyddol, 6 Ardal Gadwraeth, 92 Heneb a 391 o Adeiladau Rhestredig.

**Tirlun ac Ecoleg**

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot dirlun amrywiol a nifer o gynefinoedd trawiadol, yn amrywio o gorsydd halen arfordirol a thwyni tywod i goetir hynafol ac ardaloedd ucheldir o laswellt y bwla. Mae rhai o'r cynefinoedd hyn o bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol neu leol. Mae ardaloedd helaeth o'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys planhigfeydd conifferau, ac mae'r ardal hefyd yn cynnwys nodweddion daearegol pwysig, yn cynnwys dyffrynnoedd rhewlifol a ffurfiannau creigiau.

Cydnabyddir treftadaeth hanesyddol yr ardal trwy amrywiaeth o ddynodiadau. Oddi mewn i'r Fwrdeistref Sirol mae 20 Safle dynodedig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 2 Warchodfa Natur Genedlaethol a 3 Gwarchodfa Natur Leol.

**Y cyfuniad o'r Trefol a'r Gwledig a'r prif aneddiadau.**

Fel y nodwyd uchod, rhennir y Fwrdeistref Sirol yn ddwy ardal wahanol o ran eu cymeriad; Coridor yr Arfordir, sy'n dilyn coridor yr M4 yn fras, ac Ardaloedd y Cymoedd, sef cyfanswm o 5 cwm.

O ran y prif aneddiadau, mae'r CDLl wedi diffinio Hierarchaeth Aneddiadau sy'n nodi'r ardaloedd sydd yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac sy'n gallu darparu'n fwy priodol ar gyfer twf o ran eu swyddogaeth. Nodwyd mai Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe yw'r 3 prif dref, gyda Llansawel, Sgiwen, Taibach a Glyn-nedd yn ganolfannau dosbarth.

Dosbarthir gweddill yr aneddiadau fel 'canolfannau lleol mawr', 'canolfannau lleol bach', 'pentrefi' neu 'aneddiadau noswylio'.

**Newid yn y Boblogaeth a'r dylanwad ar y CDLl/diwygiadau sydd i ddod.**

Mae lefel y twf a nodir yn y CDLl wedi'i seilio ar senario economaidd sy'n uchelgeisiol ac yn anelu at fwyafu twf swyddi yn yr economi leol. Er mwyn ymdrin â materion allweddol y Fwrdeistref Sirol, mae creu cyfoeth trwy dwf swyddi yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth y CDLl.

Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Awdurdod i ragweld sut mae newidiadau economaidd dros gyfnod y Cynllun yn cyfateb i'r gofynion o ran tir cyflogaeth a nifer y tai newydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cyfanswm a ragwelir i'r boblogaeth a'r cyflenwad llafur fydd yn ofynnol. Mae hyn yn sicrhau aliniad rhwng strategaethau cyflogaeth a thai, gan greu patrwm datblygu mwy cynaliadwy a fydd, yn ei dro, yn gwella cadernid Strategaeth y CDLl.

Mae'r dull hwn wedi defnyddio rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru 2008, a dadansoddiad manwl o'r tueddiadau gwaelodol o ran marwolaeth a ffrwythlondeb a maint cyfartalog aelwydydd. Ar sail senario uchelgeisiol twf swyddi (gan roi ystyriaeth i ddyhead yr Awdurdod i leihau diweithdra a chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd yn unol â chyfartaledd Cymru), sbardunwyd twf poblogaeth yr ardal gan gymhareb y boblogaeth oedran gwaith a chyfanswm y boblogaeth. Bernir bod gwneud hynny yn sicrhau rhagamcanion mwy cadarn na rhai a seiliwyd ar dueddiadau yn unig, nad ydynt yn adlewyrchu'n gywir ddyheadau'r Awdurdod ar gyfer yr ardal.

Ar sail y senario twf a ragwelwyd, yn bennaf yn sgîl ffactorau economaidd, o 3850 o swyddi ar gyfer yr ardal, mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer 7800 o unedau preswyl newydd eraill, gan greu cynnydd o ryw 7000 o bobl a chyfanswm poblogaeth o 147,400 erbyn 2026. Mae'r agwedd hon yn uchelgeisiol, wedi'i chysylltu â'r economi leol, ac wedi'i llunio i gyd-fynd â'r twf a ragwelir mewn gweithgaredd economaidd a'r gostyngiad ym maint cyfartalog aelwydydd, yn ogystal â helpu i ddiwallu'r angen am unedau preswyl fforddiadwy ychwanegol.

**Y Gyllideb a Goblygiadau Cysylltiedig**

O ystyried y blaenoriaethau a nodwyd gan y Cyngor, mae cyllid wedi cael ei neilltuo er mwyn darparu/gwella gwasanaethau yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, a bydd hynny'n parhau'n flaenoriaeth. Mae'r pwysau ariannol ychwanegol y mae'r Cyngor yn ei wynebu, wedi i'r economi ddymchwel yn 2008, ac yn sgîl y mesurau cyni a ddilynodd hynny, wedi cael effaith

sylweddol ar Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, y bu toriad o £18.011 miliwn yn ei chyllideb ers 2009/10, fel ei bod bellach yn ffigur o £31.458 miliwn, sef 13.9% o gyllideb net y Cyngor. Mae hyn yn cyfateb i doriad o 57.3% yng nghyllideb y Gyfarwyddiaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd wedi cael y gwaith o sicrhau arbedion pellach yn ystod 2017/18. Hyd yma mae £1.3 miliwn ychwanegol o'r arbedion arfaethedig wedi'u nodi ac yn destun ymgynghori fel rhan o Flaengynllun Ariannol y Cyngor. Mae toriadau o'r fath wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff, dod â rhai gwasanaethau anstatudol i ben, rhoi modelau darparu gwasanaeth amgen ar waith, a chynyddu ffïoedd lle mae disgresiwn lleol yn caniatáu hynny.

Effaith fwyaf y toriadau i'r gyllideb fu'r gostyngiad yn nifer y staff, gan fod dros 400 o aelodau staff yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd wedi ymadael heb neb yn cymryd eu lle yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Er bod y gwasanaeth cynllunio wedi cael ei gysgodi i ryw raddau rhag mwyafrif toriadau'r cyfnod hwn, y mae serch hynny wedi colli 36.5% o'i staff, nad oes neb wedi cymryd eu lle yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Mae 33 aelod o staff yn parhau yn eu swyddi yn yr is-adrannau Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygu (sydd hefyd yn cynnwys y tîm cefn gwlad a bywyd gwyllt), un ohonynt ar gontract dros dro. Mae'r toriadau hyn ar ben yr arbedion y llwyddodd y gwasanaeth i'w sicrhau ar ôl gweithredu Adolygiad Meddwl am Systemau o Reoli Datblygu yn 2008. Arweiniodd yr adolygiad hwn at ailddylunio'r gwasanaeth i wella profiad y cwsmer ac yn ei dro ddileu gwastraff o'r broses. Dyluniwyd y gwasanaeth er mwyn dileu pum swydd bryd hynny, o ganlyniad i'r adolygiad. Mae llwyddiant Egwyddorion Meddwl am Systemau, fodd bynnag, yn dibynnu ar fesur y galw, perfformiad a gallu yn barhaus. Gwaetha'r modd, mae'r dirywiad economaidd a ddilynodd ddiwedd yr adolygiad wedi atal y gwasanaeth rhag derbyn adnoddau priodol i ymateb i ofynion ein holl gwsmeriaid.

Oherwydd y pwysau ar y cyngor i sicrhau arbedion, mae'r Gwasanaeth wedi wynebu colli sgiliau arbenigol dros y blynyddoedd; yn arbennig, collwyd sgiliau yng nghyswllt Cadwraeth a dylunio, tirweddu, draenio a Mwynau. O ran yr olaf, gan mai'r Cyngor sydd ag un o'r adnoddau mwynau mwyaf y manteisiwyd yn weithredol arno yng Nghymru, nid oes modd gweithredu heb sgiliau arbenigol cynllunydd mwynau. O ystyried y diffyg swyddogion sydd ar gael yn y maes, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, sydd bellach yn darparu'r holl swyddogaethau cynllunio mwynau ar ein rhan, er mai Castell-nedd Port Talbot sy'n cadw'r pwerau gwneud penderfyniadau. Mae hwn yn drefniant buddiol o'r ddeutu ar y sail bod Sir Gaerfyrddin bellach yn cael ei hariannu'n briodol i gynnal tîm o swyddogion, gan wella gwydnwch y tîm ac mae'r swyddogion hefyd yn gallu gwella'u sgiliau a'u profiad trwy weithio ar nifer o ddatblygiadau mwynau cymhleth a dadleuol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'r swyddogaeth Rheoli Datblygu yn wasanaeth sy'n ennill ffïoedd, ac yn sgîl hynny mae'r gyllideb gysylltiedig â'r gwasanaeth yn seiliedig ar lefelau incwm ffïoeddd hanesyddol ar sail tueddiadau, gyda'r gyllideb refeniw ganolog yn talu am unrhyw ddiffygion. Mae pwysau bob blwyddyn i fwyafu incwm ffïoedd ac felly leihau'r angen am gymorth refeniw i gau'r bwlch. Ychydig iawn o incwm ffïoedd sydd gan yr is-adran Polisi Cynllunio a Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, er y ceisir am grantiau o amrywiol ffynonellau i gyflawni gwaith prosiect sy'n ymwneud â theithio llesol, bioamrywiaeth a gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gynhyrchu incwm o weithgareddau noddi asedau.

Er gwaethaf yr uchod, mae cost darparu'r gwasanaeth yn gorbwyso lefelau'r incwm o bell. Mae'r siart sy'n dilyn yn nodi'r lefelau gwariant cyffredinol ar gyfer pob un o'r gwasanaethau o fewn y swyddogaeth gynllunio, a hynny yn ystod 2011/12 ac yn ystod y flwyddyn 2016/17, fel bod modd galluogi cymariaethau dros amser.

**Cymharu Lefelau Gwariant Net rhwng 2011/12 a 2016/17**

| | Rheoli Datblygu | Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt | Polisi Cynllunio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2011/12** | £248,740 | £498,205 | £544,656 | **£1,291,601** |
| **2016/17** | £217,165 | £278,438 | £331,975 | **£827,578** |
| **Y Gwahaniaeth** | -£31,575 | -£219,767 | -£166,230 | **£464,023** |
| **% y Newid** | -13% | -34% | -39% | **-36%** |

Dengys y tabl uchod fod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn y gwariant cysylltiedig â'r Gwasanaeth Cynllunio ers 2011/12 o 36%. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiadau staff a gostyngiad yn y cyllidebau sy'n gysylltiedig â chynnal hawliau tramwy cyhoeddus ac arian ar gyfer gwaith bioamrywiaeth. Fel y nodwyd uchod, mae'r gyllideb yn debygol o leihau ymhellach yn 2017/18 ac eto yn 2018/19.

O ran lefelau incwm, mae hyn yn cael ei sicrhau'n bennaf yn is-adran Rheoli Datblygu y gwasanaeth, lle cynyddodd y lefelau incwm i £936,768 yn ystod 2015/16. Mae mwyafrif llethol yr incwm ffïoedd sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu yn gysylltiedig â ffïoedd Ceisiadau Cynllunio, gyda chyfran fechan yn cael ei sicrhau trwy'r gwasanaeth cyn-ymgeisio am dâl a thrwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio, sydd fel ei gilydd yn dibynnu ar lefel gymesur o wasanaeth. Fodd bynnag, mae hyn wedi digwydd ar yr un pryd ag y mae'r gwasanaeth wedi profi gostyngiad yn nifer y staff. Ymhellach, mae'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r swyddogaeth Gynllunio, e.e. Priffyrdd, Eiddo ac Ystadau, Draenio ac ati, hefyd wedi wynebu gostyngiadau sylweddol o ran staff ac adnoddau, ac yn sgîl hynny maent yn llai galluog i ymateb i ymgyngoriadau a darparu cefnogaeth gyffredinol i weithrediad y swyddogaethau a gyflawnir yn y Gwasanaeth Cynllunio. O ganlyniad mae'r timau'n cael trafferth ymdopi â galwadau'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Gwaethygir hyn ymhellach gan y gostyngiad a ragwelir yn yr incwm ffïoedd wrth symud ymlaen. Mae gostyngiadau o'r fath wedi cynyddu ers cyflwyno newidiadau nad ydynt yn arwyddocaol (NMAs), sydd yn ei dro wedi arwain at ostyngiad yn y ceisiadau cynllunio diwygiedig a gyflwynir a'r ffïoedd cysylltiedig. Mae'r broses NMA hefyd wedi galluogi ymgeiswyr i newid amodau o dan y broses hon, sydd fel petai'n tanseilio'r broses A73. Mae'r incwm ffïoedd wedi gostwng hefyd o ganlyniad i'r gofyniad i gynnwys rhifau cyfeirnod y cynllun mewn amod cynllunio ar bob hysbysiad penderfyniad. Mae gofyniad o'r fath wedi galluogi datblygwyr i gyflwyno mwy o geisiadau adran 73 ar gyfer newidiadau sy'n aml yn sylweddol i gynlluniau a gymeradwywyd eisoes. Mae'r rhain yn aml yn cymryd cryn amser, ac eto'n arwain at gyflwyno ffïoedd isel iawn. Mae hon yn debygol o fod yn broblem sy'n parhau a fydd, oherwydd yr angen am gyflawni arbedion ariannol pellach wrth

symud ymlaen, yn rhoi pwysau ar y gwasanaeth i leihau'r lefelau staffio ymhellach. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar berfformiad - cylch dieflig.
Mewn ymgais i ymdrin â'r uchod, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio cyflawni gwell gweithio ar y cyd wedi iddo gael ei gyfuno â Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach. Fel rhan o'r broses hon, daeth i'r amlwg yn fuan fod pedwar gwasanaeth gwahanol yn cyflawni gweithgareddau gorfodi wrth ddelio gydag adeiladau diangen ac adfeiliedig a thir oedd wedi tyfu'n wyllt, sef Gorfodi Cynllunio, Rheoli Adeiladau (pan farnwyd bod yr adeilad yn beryglus), plâu a iechyd amgylcheddol. O ganlyniad, roedd hyd at bedwar swyddog gwahanol yn ymdrin ag un gwyn, gan roi sylw i wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Mae hyn nid yn unig yn arwain at wastraffu adnoddau prin, trwy ymweld â'r un safle sawl tro, ond hefyd o bosib yn cyfleu negeseuon cymysg i'r achwynydd o ran y camau y gellir eu cymryd, h.y. mae'n bosib y gellir gweithredu o dan un darn o ddeddfwriaeth, ond nid yng nghyswllt un arall. Mewn ymateb i hyn, neilltuwyd y gwaith o orfodi'r mathau hyn o gwynion i un swyddog. Mae'r swyddog dan sylw'n ymweld â'r safle ac, ar ôl tynnu ffotograffau niferus o'r safle/adeilad, yn mynd â'r gwyn trwy system brysbennu (‘triage’), lle ceisir cyngor, a chymryd camau, os bydd angen, o dan y ddeddfwriaeth fwyaf priodol. Mae'r gweithgaredd hwn wedi cael ei gysylltu â'r Fenter Cartrefi Gwag sy'n ceisio sicrhau bod adeiladau diangen yn dychwelyd i ddefnydd buddiol, ac a fydd yn ei dro yn darparu cartrefi y mae mawr alw amdanynt mewn lleoliadau cynaliadwy, ac yn ymdrin ag unrhyw ddifrod mae'r eiddo hynny'n ei achosi i'r gymuned dan sylw. Mae'r dull newydd hwn o weithio'n sicrhau ein bod bellach, yn hytrach na phaentio dros y craciau trwy gymryd camau gorfodi yn ynysig, yn gweithredu'n rhagweithiol i ddelio gyda ffynhonnell y broblem, ac yn sgîl hynny'n darparu'r manteision cysylltiedig. Mae'n ddyddiau cynnar ar hyn o bryd, ond mae eisoes yn arwain at ostyngiad yn yr adnoddau staff, ynghyd â gwelliant yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i achwynwyr a'r cymunedau y mae'r adeiladau diangen hyn wedi'u lleoli ynddynt.

Yn ogystal â'r uchod rydym hefyd yn awyddus i fuddsoddi yn yr agenda digidol drwy ddewis trwy gaffael system swyddfa gefn Gynllunio ratach a mwy effeithlon ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe. Bydd hyn yn caniatáu cydweithio agosach ar draws y ffin yn y dyfodol (os bydd awydd gwleidyddol i wneud hynny) yn ogystal â sicrhau darbodion maint. Rhagwelir hefyd y bydd y system swyddfa gefn newydd yn hwyluso gwell gweithio o bell, a fydd eto'n gwella effeithlonrwydd. Mewn cydweithrediad â hyn, mae prosiect ar waith ar hyn o bryd i leihau maint a chymhlethdod adroddiadau swyddogion er mwyn gwella capasiti ac yn sgîl hynny alluogi swyddogion i ddelio gyda cheisiadau'n fwy effeithlon. Fodd bynnag, cefnogir y gostyngiad ym maint adroddiadau swyddogion gan nodiadau a brasluniau swyddogion o ymweliadau safle a fydd yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau.

Er nad yw'r Tîm Polisi Cynllunio fel arfer yn gysylltiedig â chynhyrchu incwm, mae ein gwasanaeth wedi arallgyfeirio, ac ar hyn o bryd mae'n gyfrifol am reoli a darparu Cynllun Noddi Asedau, sy'n caniatáu i fusnesau lleol noddi amrywiol asedau sy'n eiddo i'r Cyngor. Hyd yma mae hyn wedi cael ei gyfyngu i raddau helaeth i noddi cylchfannau, ond mae'n destun cynllun peilot ar hyn o bryd i estyn y cyfleoedd i asedau eraill, gan gynnwys ymylon priffyrdd, arwyddion pyrth a cholofnau goleuadau stryd. Rhaid cydbwyso gwerth noddi ein hasedau, fodd bynnag, â'r effaith ar amwynder gweledol a sicrhau diogelwch priffyrdd a cherddwyr.

Mae'r swyddogion bioamrywiaeth hefyd yn darparu gwasanaethau cynhyrchu incwm i is-adrannau eraill yn y Cyngor, yn hytrach na dibynnu ar gaffael ymgynghorwyr allanol. Mae hyn nid yn unig

wedi arbed y Cyngor rhag defnyddio contractau allanol drud, ond hefyd yn cynhyrchu ffïoedd i gynnal y gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Mae rheoli salwch yn Fesur Corfforaethol Gorfodol, ac mae'n ofynnol i Reolwyr Gwasanaeth leihau lefelau salwch o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad i ymadawiad rhai aelodau o staff, mae lefelau salwch yn y Gwasanaeth Cynllunio yn gyffredinol wedi gostwng o 459 diwrnod (47.29 diwrnod fesul gweithiwr) yn 2014/15 i 298 diwrnod (5.6 diwrnod fesul gweithiwr) yn 2015/16, sy'n is na chyfartaledd y Cyngor (dylid nodi bod y ffigurau hyn yn cynnwys lefelau staff a salwch yr is-adrannau rheoli adeiladau a rheoli llygredd). Mae lefelau salwch yn ddylanwad pwysig ar allu'r Cyngor i ddarparu'r gwasanaeth gan fod rhaid i'r staff sydd ar ôl ymdopi â'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r staff sy'n absennol oherwydd salwch. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn wynebu cynnydd yn nifer yr aelodau staff sy'n absennol oherwydd salwch yn sgîl lefelau straen uwch. Mae'n debygol y bydd y tueddiad hwn yn parhau, gan fod llai o staff yn gorfod ymdopi â llwyth gwaith cynyddol a mwy heriol wrth symud ymlaen.

Nid lefel salwch y staff yw'r unig ffactor sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaeth. Dengys y siartiau perfformiad tua diwedd yr adroddiad hwn, er ein bod yn gyffredinol yn perfformio'n dda wrth ddelio gyda'r rhan fwyaf o fathau o geisiadau cynllunio, bod problem sylweddol yng nghyswllt ein perfformiad wrth benderfynu ar geisiadau mawr. Y rheswm am hynny yw mai dim ond dau uwch swyddog sydd gennym sy'n gallu delio gyda cheisiadau o'r fath, ac maen nhw hefyd yn delio gyda materion eraill, gan gynnwys dirprwyo ar gyfer arweinyddion eu timau, gofalu am y timau yn eu habsenoldeb, trefnu i gyflawni'r broses cyn-ymgeisio a delio gyda chyflawni'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r Lagŵn Llanw a'r amodau sy'n gysylltiedig â cheisiadau pwysig eraill, gan gynnwys ffermydd gwynt, a bennwyd cyn cyflwyno'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Mae hon yn flaenoriaeth y mae'n rhaid rhoi sylw iddi eleni a gallai alw am ailstrwythuro i gynyddu'r adnodd ar lefel uwch. Fodd bynnag, mae hynny'n cael ei lesteirio gan y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Gwerthuso Swyddi ac argaeledd y gyllideb, ynghyd â'r ffaith mai ad-drefnu'r is-adran Rheoli Datblygu'n unig fydd yn digwydd, yn hytrach na chynyddu ei maint.

**Ein Stori Leol**

Yn 2015/16 roedd yr Awdurdod yn cyflogi 12.6 o Swyddogion Cynllunio CALl yn y tîm Rheoli Datblygu, sy'n adrodd i Reolwr Datblygu. Maent yn cynnwys 2 Arweinydd Tîm, 2 Uwch Swyddog Cynllunio, 5.6 Swyddog Cynllunio, 3 chynllunydd cynorthwyol a 3 swyddog gorfodi, y mae 1 ohonynt yn ymdrin â mwynau a gwastraff. Yn ystod 2015/16 penderfynwyd ar 813 o geisiadau cynllunio ac ymchwilio i 172 o gwynion gorfodi.

Yn ystod y cyfnod hwn cyflawnodd y Swyddogion a'r Cynorthwywyr Cynllunio lwyth gwaith amrywiol, fel a ganlyn:

Ar gyfartaledd dyrannwyd llwyth achosion o 108 cais i **Gynorthwywyr Cynllunio** y llynedd, ac roedd ganddynt gyfradd benderfynu gyfartalog o ryw 116 cais yr un yn ystod y flwyddyn

Ar gyfartaledd dyrannwyd llwyth achosion o 67 cais i **Swyddogion Cynllunio** y llynedd, ac roedd ganddynt gyfradd benderfynu gyfartalog o ryw 63 cais yr un yn ystod y flwyddyn.

Ar gyfartaledd dyrannwyd llwyth achosion o 25 cais i **Uwch Swyddogion Cynllunio** y llynedd, ac roedd ganddynt gyfradd benderfynu gyfartalog o ryw 14 cais yr un yn ystod y flwyddyn.

Mae'n amlwg o'r ffigurau uchod bod angen i'r lefelau penderfynu gynyddu yng nghyswllt uwch swyddogion. Er y byddai'n rhesymegol, ar yr wyneb, leihau nifer y cynorthwywyr cynllunio a chynyddu nifer y cynllunwyr a'r uwch gynllunwyr, cyfyngir ar hyn gan y moratoriwm sydd ar waith yng nghyswllt penodi staff allanol a'r ffaith na all lefelau gwariant y gwasanaeth gynyddu. Er bod cynllunio olyniaeth yn awgrymu y byddai cynorthwywyr cynllunio yn cael eu dyrchafu'n gynllunwyr, mae lefel sgiliau'r ymgeiswyr a'r mathau o bwysau y byddant yn eu hwynebu yn annhebygol o ddatrys y sefyllfa.

Nodir hefyd o'r ffigurau uchod bod llwyth gwaith y swyddogion yn ymddangos yn llai na'r hyn a nodwyd mewn dogfen ymchwil a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Swyddogion Cynllunio yn 2004. Cadarnhaodd y gwaith ymchwil hwn y dylai llwyth gwaith rhesymol i swyddog achosion gynnwys rhyw 150 o geisiadau (heb gynnwys ceisiadau cyn-ymgeisio, apeliadau a gwaith arall nad yw'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio). Fodd bynnag, gwnaed y gwaith ymchwil hwnnw ryw 12 mlynedd yn ôl, ac ers hynny mae cymhlethdod deddfwriaeth gynllunio wedi cynyddu'n sylweddol. Ymhellach, mae Castell-nedd Port Talbot mewn sefyllfa unigryw hefyd, gan nad oes technegwyr cynllunio i gynnal y gwasanaeth Cynllunio bellach. O ganlyniad, mae'n ofynnol i swyddogion achosion wneud eu gwaith gweinyddol eu hunain ar gyfer ceisiadau, gan gynnwys dilysu, cofrestru, sganio a mynegeio dogfennau ar y system rheoli dogfennau electronig, a pharatoi ffeiliau i'w dosbarthu yn dilyn y penderfyniad. Mae hyn i gyd yn cymryd amser ac adnoddau, ac mae angen ei ystyried ar ben manylion nifer yr achosion.

Wrth droi at yr is-adran Polisi Cynllunio, mae 6 Swyddog Polisi Cynllunio sy'n adrodd i'r Rheolwr Polisi Cynllunio. Mae nifer y staff wedi gostwng 3 CALl ers dechrau'r broses CDLl, ond mae'r cyfrifoldebau wedi cynyddu o ymdrin â pholisi cynllunio yn unig, gan estyn yn awr i gynnwys teithio llesol, strategaeth beicio a noddi asedau. Bu 2015/16 yn flwyddyn arbennig o brysur, wrth i'r tîm lywio'r CDLl yn llwyddiannus trwy EIP a ddaeth i ben pan fabwysiadwyd y cynllun ym mis Ionawr 2016. Wedyn, hoeliwyd sylw o'r newydd ar gyflawni'r CCAiau cysylltiedig, gan roi'r trefniadau monitro ar waith a chanolbwyntio ar symud ymlaen gyda'r Map Rhwydwaith Integredig (INM), fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth Teithio Llesol.

Er gwaethaf y pwysau ar y gyllideb a'r gostyngiad yn y staff a brofwyd gan y gwasanaeth, mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi sicrhau nifer o gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

1. Mewn blynyddoedd blaenorol profodd yr is-adran Rheoli Datblygu ostyngiad yn lefel perfformiad ar ôl colli staff profiadol. Er gwaethaf y golled hon a'r diffyg staff i gymryd eu lle, sicrhawyd gwelliannau perfformiad, yn arbennig ym maes datblygiadau perchnogion tai, lle penderfynwyd ar 95% o geisiadau ar gyfartaledd o fewn y cyfnod statudol. Cododd y perfformiad cyffredinol i 80% yn chwarter olaf 2015/16.

2. Blaenoriaeth y llynedd oedd dylunio a gweithredu cronfa ddata A106 well a phrotocol newydd i sicrhau ein bod yn gwella'r monitro a'r rheolaeth ar y seilwaith A106 a'r taliadau i'r awdurdod. Er bod gwaith yn parhau ar y gronfa ddata hon, mae gennym bellach swyddog penodedig yn gweithio ar greu a rheoli'r gronfa ddata, a bydd hynny yn ei dro yn gwella

gallu'r Cyngor i sicrhau'r cyfraniadau uchaf posibl gan ddatblygwyr, a hynny'n brydlon ac yn y mannau cywir. Dylai hynny yn ei dro leihau'r pwysau ariannol ar y Cyngor.

3. Mae'r hyfforddiant ar gyfer yr holl Aelodau etholedig wedi cael ei gynyddu yng nghyswllt materion Cynllunio, gyda hyfforddiant gorfodol wedi'i deilwra yn targedu'r Aelodau hynny sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio. Mae hyfforddiant o'r fath wedi gwella ansawdd y penderfyniadau a wneir, a bydd hynny'n parhau. Mae'n arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau deddfwriaethol sylweddol a gyflwynwyd o fewn cyfnod byr iawn o amser.

4. Yn y cynllun busnes blaenorol nodwyd bod cyflwyno gweithdrefnau a phrotocolau safonol yng nghyswllt darparu'r Gwasanaeth Gorfodi Cynllunio a'r Gwasanaeth Apeliadau Cynllunio yn flaenoriaeth. Daeth digwyddiadau ar warthaf hyn wedi i Gynllunio a Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach ddod at ei gilydd, fel bod modd creu gwasanaeth gorfodi cydlynus yng nghyswllt nifer cyfyngedig o faterion. Mae protocol newydd a set gytunedig o weithdrefnau'n cael eu datblygu ar gyfer y cyfrifoldebau gorfodi cynllunio sy'n weddill eleni.

5. Sicrhawyd Cytundebau Perfformiad Cynllunio (CPCau) ar gyfer dau Brosiect Seilwaith Cenedlaethol Arwyddocaol (NSIP) y penderfynwyd arnynt gan yr Arolygiaeth Gynllunio oddi mewn i ffiniau'r Cyngor y llynedd. Fodd bynnag, roedd un o'r cynlluniau'n ymwneud â'r orsaf bwer arfaethedig yng ngwaith dur TATA, nad aeth rhagddi, gan nad aeth y cwmni ati i gyflawni'r gofynion cysylltiedig â'r datblygiad, a fyddai wedi darparu'r cyllid cysylltiedig i'r Cyngor. Roedd y CPC a sicrhaodd gyfraniadau tuag at gostau cyflogi swyddog cynllunio, a thalu am ran o gyflog ecolegydd o fewn y gwasanaeth, yn ymwneud â phrosiect y Lagŵn Llanw. Cyd-drafodwyd estyniad pellach i CLG Fferm Wynt Pen-y-Cymoedd hefyd, i sicrhau incwm ychwanegol i'r gwasanaeth.

6. Mae'r gweithdai i asiantau cynllunio wedi ailgychwyn ar ôl bwlch o ryw 18 mis. Cafwyd bod y rhain yn arbennig o ddefnyddiol i sicrhau bod asiantau sy'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol yn ymwybodol o'r holl newidiadau yn y ddeddfwriaeth ac felly yn bodloni ein disgwyliadau o ran ansawdd a dilysrwydd cyflwyniadau newydd. Bydd y gweithdai hyn yn parhau i gael eu cyflwyno'n rheolaidd.

7. Bu'r cais cynllunio ar gyfer y datblygiad mwynau ym Mhwll y Dwyrain yn destun asesiad trylwyr, a chafodd ganiatâd cynllunio yn amodol ar nifer helaeth o amodau a chytundeb A106 amgen. Sicrhaodd hyn na chafodd y safle ei adael mewn cyflwr heb ei adfer, a allasai gael effaith weledol niweidiol hirdymor ar yr ardal amgylchynol, yn ogystal ag atal llifogydd posibl o'r ardal wag mewn modd heb ei reoli. Sicrhaodd y caniatâd hefyd gyflogaeth barhaus y rhai a gyflogir yn uniongyrchol ar y safle, a'r rhai sy'n gweithio o fewn y gadwyn gyflenwi am bedair blynedd arall.

8. Cynhaliwyd dadansoddiad cost-budd yng nghyswllt y cyfleoedd gorfodi sydd ar gael i'r Cyngor yng nghyswllt cyflwr heb ei adfer safle glo brig Margam gynt. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd cais cynllunio wedi hynny ar gyfer cynllun amgen i adfer y safle. Mae'r cais hwn wedi derbyn penderfyniad i roi caniatâd, ac mae'n disgwyl i gytundeb adran 106 gael ei lofnodi.

9. Cyflwynwyd protocol cyn-ymgeisio newydd, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Gynllunio newydd. Yn ogystal â'r gofyniad statudol hwn, rydym wedi cadw a gwella ein gwasanaeth cyn-ymgeisio presennol i roi dewis o ran lefel y gwasanaeth sydd ar gael i

gwsmeriaid, yn ogystal â rhoi cyfle iddyn nhw barhau i gynnal trafodaethau cyfrinachol gyda'r Cyngor hyd nes i gais cynllunio gael ei gyflwyno.

10. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ynghylch darparu gwasanaeth mwynau i'r awdurdod gan Gyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei estyn i gwmpasu gorfodi ynghylch mwynau a gwastraff yn ogystal ag ymweliadau a drefnwyd, ac mae'r olaf wedi arwain at gynnydd yn yr incwm i'r Cyngor.

11. Penderfynwyd ynghylch dau Ymchwiliad Cyhoeddus pwysig yn ymwneud â ffermydd gwynt yn Hirfynydd a Mynydd Brombil wedi cryn fewnbwn gan swyddogion ac ymgynghorwyr. Cafodd y cyntaf ei amddiffyn yn llwyddiannus, gyda'r Cyngor yn sicrhau dyfarniad costau rhannol yn erbyn y datblygwr, ond caniatawyd y llall, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar gyflawni'r amodau. Sicrhawyd CPC i dalu am y gwaith sy'n gysylltiedig ag asesu amodau.

12. Cwblhawyd yr Archwiliad Cyhoeddus (EIP) oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) heb arwain ond at fân newidiadau i'n cynllun ar adnau. Wedi hynny, mabwysiadwyd y CDLl gan y Cyngor ar 27 Ionawr 2016. Ar ôl ei fabwysiadu cymeradwywyd y swyddogion polisi cynllunio a fu'n ymwneud â pharatoi a mabwysiadu'r CDLl gan Brif Swyddog Cynllunio Llywodraeth Cymru am ansawdd y cynllun, ac am eu proffesiynoleb ym mhob cam o'r broses.

13. Lluniwyd gweithdrefn fanwl i fonitro effeithiolrwydd a chyflawniad y dyheadau polisi oddi mewn i'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Bydd canlyniadau hyn yn bwydo i'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 ac yn flynyddol wedi hynny.

14. Cafodd pum CCA strategol bwysig oedd yn hanfodol i gynnal y CDLl wrth symud ymlaen, ac a oedd hefyd yn hanfodol i gynorthwyo mynediad at lifoedd ariannu ar gyfer yr is-adran Eiddo ac Adfywio eu drafftio a chraffwyd arnynt o fewn yr Archwiliad Cyhoeddus. Mae'r rhain bellach wedi cael eu hadnewyddu i roi sylw i adroddiad yr Arolygwyr a'r fersiwn a fabwysiadwyd o'r CDLl.

15. Dechreuwyd y gwaith o baratoi Canllaw Cynllunio Atodol ar y cyd (CCA) ar gyfer Ffordd Fabian trwy gydweithio â staff Dinas a Sir Abertawe. Bydd y CCA yn helpu i sicrhau dull gweithredu cydlynus wrth ailddatblygu'r coridor strategol hwn, yn ogystal â sicrhau cyllid trwy rwymedigaethau cynllunio a fydd ynddo'i hun yn darparu'r seilwaith hanfodol sy'n ofynnol i hwyluso ein dyheadau adfywio ar y cyd. Bu fersiwn ddrafft yn destun ymgynghori cyhoeddus helaeth, ac rydym wrthi'n gweithio gyda staff Abertawe i ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law a rhoi sylw iddynt, gan ddiweddaru'r CCA i adlewyrchu'r cyfryw sylwadau os bydd angen.

16. Er gwaethaf amserlen eithriadol o dynn gan Lywodraeth Cymru ac ariannu annigonol, paratowyd y Map cyntaf o'r Llwybrau Presennol (ERM) ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan, bu'n destun ymgynghori ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru o fewn y terfynau amser a bennwyd. Y flaenoriaeth y llynedd oedd canolbwyntio ar ddau brif anheddiad Castell-nedd a Phort Talbot yn unig, ond penderfynwyd cwblhau pob un o'r 11 anheddiad cymwys yn y Fwrdeistref Sirol. Ers hynny rydym wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru yn ein cyfarwyddo i wneud rhai mân newidiadau i'r Map o'r Llwybrau Presennol. Er bod hynny'n

destun pryder ar y cychwyn, darganfuwyd ers hynny mai ERM 5 awdurdod yn unig a dderbyniwyd, a bod 3 awdurdod wedi gorfod ailgyflwyno'r ddogfen gyfan, gyda'r 14 awdurdod oedd yn weddill yn gorfod gwneud rhai newidiadau. Bydd cychwyn y gwaith ar y mân newidiadau hyn yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, gan fod angen eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Gorffennaf 2016.

17. Mae'r trefniadau rheoli a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'n Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) wedi cael eu hailddylunio i adlewyrchu adleoli'r gwasanaeth o'r Creunant i'r Ceiau. Sicrhaodd hyn arbedion fel rhan o'r Blaengynllun Ariannol yn sgîl costau llety, arbedion effeithlonrwydd a mynediad at beiriannau ac offer. Yn sgîl dod â chontractau i ben gyda nifer bychan o Gynghorau Cymuned cafwyd nifer o gwynion a phryderon y byddai llwybrau troed mewn ardaloedd trefol ac ar gyrion trefi yn cael eu hesgeuluso wrth symud ymlaen. Er gwaethaf y pryderon hyn, mae'r tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt wedi ymgymryd yn llwyddiannus â'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau hyn, ac yn dilyn cyhoeddi setliad gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru, nodwyd swm o £100,000 i'w ddefnyddio i wella arwyneb caled rhwydwaith o lwybrau troed a ddefnyddir yn rheolaidd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd hyn nid yn unig yn gwella'u hygyrchedd ond hefyd yn lleihau'r atebolrwydd cynnal a chadw wrth symud ymlaen. Rhoddir y prosiect ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

18. Mae swyddogion yn y tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt wedi bod yn gweithio gydag adrannau eraill i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol o ran Cadwraeth Bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 a gofynion deddfwriaeth amgylcheddol arall genedlaethol ac Ewropeaidd (gyfredol ac sy'n dod i'r amlwg); ac yn cyfrannu at gyflawni'r gofynion o ran nodau ac amcanion a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y rhain yw'r cyflawniadau mwyaf arwyddocaol a sicrhawyd yn ystod 2015/16. Yn ogystal â'r uchod, mae ein staff yn parhau i gyflawni swyddogaethau statudol er gwaethaf cyllideb sy'n lleihau ar gyfer cwsmeriaid sydd â disgwyliadau cynyddol uwch. Bydd hyn yn gwaethygu'n raddol yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i'r cyfyngiadau ar gyllidebau gynyddu mwy fyth. Mae rheolwyr o fewn yr is-adran yn monitro ac yn ceisio rhoi hwb i forâl er mwyn sicrhau bod lefelau salwch yn cael eu cadw mor isel â phosib, a pherfformiad cystal â phosib, er bod hynny'n dod yn fwyfwy heriol.

**Blaenoriaethau wrth symud ymlaen**

Nodwyd nifer o flaenoriaethau a gwelliannau gwasanaeth allweddol ar gyfer eleni, y mae rhai ohonynt yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant a sicrhawyd tan yn ddiweddar, a pharhau i'w wella. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Caiff polisi a gweithdrefn cynhwysfawr ar gyfer Gorfodi eu paratoi a'u gweithredu yng nghyswllt cwynion ynghylch tir ac adeiladau anniben, yn ogystal â strwythurau peryglus.** Cyflwynir un system gan y gwasanaeth, a fydd yn defnyddio'r holl bwerau deddfwriaethol sydd ar gael (a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Iechyd Amgylcheddol, Rheoli Adeiladau, Cynllunio a Rheoli plâu). Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y swyddogion sy'n ymweld â'r un safle, a gwthio'r gwyn o un gwasanaeth i un arall. Bydd cwynion, felly, yn derbyn sylw mwy effeithlon, heb gostio cymaint i'r Cyngor. Bodolaeth gweithdrefn newydd lwyddiannus fydd y mesur priodol.

- **Bydd amser swyddogion yn cael ei ailffocysu i gyflawni'r cynlluniau sy'n rhan o'r Prosiect Mannau Hyfyw a Dichonadwy (VVP).** Nodir y cyfyngiadau a allai atal cynlluniau rhag cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, ac ymgysylltir â phartneriaid i gael hyd i atebion dichonadwy a chyflawnadwy er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo, gan roi sylw i'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- **Paratoir Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) newydd ar Rwymedigaethau Cynllunio, yn ogystal â chronfa ddata A106.** Bydd y swyddog A106 sydd newydd ei benodi, gan roi sylw i sylfaen y CDLl o dystiolaeth, yn paratoi CCA a fydd yn nodi'n glir ddisgwyliadau'r Cyngor o ran enillion Cynllunio. Bydd y gronfa ddata A106 newydd yn caniatáu monitro trylwyr ar y gofynion a geisir a'r gwaith a sicrhawyd/taliadau a dderbyniwyd. Yn eu tro bydd datblygwyr yn gallu nodi'r costau sy'n gysylltiedig â symud datblygiadau ymlaen o'r cychwyn, fel bod modd iddynt ganfod y lefelau risg. Bydd y Cyngor yn gallu mwyafu faint o seilwaith a ddarperir gan y sector preifat a monitro'i gyflawniad wrth symud ymlaen.
- **Dileu'r rhwystrau yn y Gwasanaeth Rheoli Datblygu a sicrhau bod Uwch Swyddogion yn ymwneud â darparu cyngor i swyddogion mor gynnar â phosibl.** Bydd hyn yn galw am ailasesu'r llif gwaith/gweithdrefnau cysylltiedig â'r system Rheoli Datblygu i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol helaeth a ddaeth i'r amlwg ers mis Gorffennaf 2015, pryd y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Yr amcan yw lleihau hyd y cyfnod o'r dechrau i'r diwedd sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae bwriad hefyd i ymdrin â'r angen am newidiadau hwyr i'r cynlluniau arfaethedig, yn arbennig y rhai hynny'n sy'n gysylltiedig â cheisiadau mawr, gan fod y rheiny'n cael effaith ar fesurau perfformiad ar hyn o bryd.
- **Parhau â hyfforddiant yr Aelodau, gan adeiladu ar yr hyn a estynnwyd yn ddiweddar.** Paratoir amserlen hyfforddi i sicrhau bod yr Aelodau'n derbyn hyfforddiant rheolaidd mewn meysydd pwnc sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ymgymryd â'u cyfrifoldebau cynllunio, boed hynny fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio neu fel arall. O ganlyniad, bydd Aelodau'n fwy gwybodus am newidiadau deddfwriaethol a meysydd pwnc unigol sy'n bwysig i'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn gwella dealltwriaeth Aelodau o'r system gynllunio, sy'n gymhleth ac yn newid yn barhaus, a bydd hefyd yn gwella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau.
- **Newidir y trefniadau Dirprwyedig a'r protocol Siarad Cyhoeddus.** Bydd y newidiadau'n adlewyrchu newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth o ran trefniadau dirprwyedig, tra bydd y protocol siarad cyhoeddus yn ymgorffori pryderon/beirniadaeth adeiladol a gafwyd gan Aelodau etholedig ac aelodau o'r cyhoedd yng nghyswllt y weithdrefn ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Tachwedd 2014. O ganlyniad rhagwelir y bydd atebolrwydd a thryloywder y gwasanaeth Rheoli Datblygu yn gwella, ac y daw llai o gwynion i law ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, er y cydnabyddir mai ychydig iawn a ddaw i law ar hyn o bryd.
- **Cynhelir y rhaglen o waith sy'n gysylltiedig â Phwll y Dwyrain.** Bydd swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos â gweithredydd y safle a rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod y gweithgareddau echdynnu a'r cynllun adfer yn parhau i gadw at y targed o ran eu cyflawni, heb effeithio ar yr amgylchedd a'r cymunedau o amgylch dros ben yr hyn a ragwelwyd adeg y cais cynllunio.
- **Cymeradwyo caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun adfer amgen ar safle Glo Brig Margam gynt, a chychwyn y gwaith yn unol â'r cynlluniau a'r amodau cymeradwy.** Yr amcan yw rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun adfer amgen ond derbyniol a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a diogeledd y safle, a chomisiynu'r Awdurdod Glo i oruchwylio'r gwaith adfer

wrth symud ymlaen, gan fod angen i'r gwaith gael ei wneud o fewn cyfnod cyfyngedig o amser, a chyllideb benodedig.

- **Cwblhau gwaith ar y chwe CCA strategol bwysig sy'n ofynnol i gynnal y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).** Mae gwaith wedi cychwyn i baratoi'r CCA. Bydd hyn yn parhau a bydd hefyd yn cynnwys ymgynghori cyn eu mabwysiadu. Mabwysiadir y CCA, a byddant yn darparu eglurder pellach i ddatblygwyr a staff Rheoli Datblygu wrth ddehongli polisïau o fewn y CDLl. Bydd hyn yn lleihau risg a dylai annog datblygiad o ansawdd da yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- **Dechrau gweithio ar saith CCA arall**: **Fframwaith Datblygu Port Talbot a Chanol y Dref; Mannau Agored a Mannau Glas; Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth; Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel; Dylunio; Yr Amgylchedd Hanesyddol; Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.** Mabwysiadir y CCA, a byddant yn darparu eglurder pellach i ddatblygwyr a staff Rheoli Datblygu wrth ddehongli polisïau o fewn y CDLl. Bydd hyn yn lleihau risg a dylai annog datblygiad o ansawdd da yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mabwysiadu'r CCA fydd y mesur priodol.
- **Gwneud gwaith ymchwil ynghylch 'Cynllun Gwneud Iawn ynghylch Bioamrywiaeth' i gynnal y broses gynllunio sy'n bwydo i'r gwaith o ddatblygu CCA. Bydd CCA drafft yn cael ei baratoi ar gyfer ymgynghori.** Bydd hyn yn sicrhau cyfleoedd tymor hwy ar gyfer gwneud iawn ynghylch bioamrywiaeth oddi ar y safle, a fydd yn cyflymu gweithrediad prosiectau a fyddai fel arall yn wynebu oedi oherwydd cyfyngiadau ecolegol. Mabwysiadu'r CCA fydd y mesur priodol. Arian a sicrheir trwy LEADER y Rhaglen Ddatblygu Ranbarthol a Chronfa Gystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflogi ymgynghorydd i gyflawni'r prosiect.
- **Cwblhau'r CCA ar y cyd ar gyfer adfywio coridor Ffordd Fabian.** Cwblhawyd yr ymarferiad ymgynghori 8 wythnos ar 25 Ionawr 2016. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i asesu'r sylwadau a ddaeth i law a diweddaru'r CCA os bydd angen. Mabwysiadir y CCA gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a chan Ddinas a Sir Abertawe. Bydd yn rhoi cyfarwyddyd i ddatblygwyr gyflawni dyheadau adfywio'r ddau gyngor yn ogystal â sicrhau arian A106 i wella seilwaith hanfodol ar hyd y coridor.
- **Sefydlu systemau a gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad y CDLl.** Craffwyd ar amlinelliad o'r dangosyddion monitro cysylltiedig â'r polisïau yn yr Archwiliad Cyhoeddus a chytuno arnynt yn yr Archwiliad hwnnw. Mae angen dechrau gweithio i sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer casglu tystiolaeth er mwyn cadarnhau a yw'r polisïau'n gweithio'n effeithiol neu beidio.
- **Cynnal/cyhoeddi'r Astudiaeth Flynyddol ar y Cyd - Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS).** Mewn ymgynghoriad â'r diwydiant adeiladu, cynhyrchu adolygiad cynhwysfawr o swm y tir sydd ar gael ar gyfer datblygu tai.
- **Cwblhau'r ymrwymiad i'r Ddeddf Teithio Llesol yng nghyswllt y Map o'r Llwybrau Presennol (ERM) a dechrau gweithio ar y Map o'r Rhwydwaith Integredig (INM).** Cyflwynwyd y Map o'r Llwybrau Presennol i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am newidiadau pellach yng nghyswllt y gosodiadau cyfiawnhau sy'n cefnogi rhai o'n llwybrau. Wedyn bydd gwaith yn cychwyn i nodi pa welliannau sy'n ofynnol i'r llwybrau hyn er mwyn medru eu cynnwys yn yr INM.
- **Newid y trefniadau rheoli a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'n rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) a dechrau gweithio ar adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (RoWIP).** Yn sgîl y cyllidebau llai sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus ceir mwy o ddibyniaeth bellach ar dderbyn cwynion i lywio gofynion cynnal a chadw nad ydynt yn fater o drefn. Ar ôl derbyn cyllid ychwanegol untro ym mis

Ebrill 2016 mae atodlen o waith atgyweirio a/neu osod wyneb newydd ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus mewn ardaloedd trefol a chyrion trefi wedi cael ei llunio, ac mae nawr ar waith gan yr is-adran Gofal Strydoedd. Bydd y cyllid ychwanegol a fuddsoddir mewn Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gwella ansawdd y llwybrau a ddefnyddir amlaf gennym, a fydd yn lleihau nifer y cwynion a ddaw i law a hefyd yn lleihau'r atebolrwydd cynnal a chadw a'r costau ar gyfer y llwybrau hyn wrth symud ymlaen. Bydd hynny'n caniatáu dargyfeirio cyllid arall i gynnal a chadw llwybrau eraill a strwythurau cysylltiedig.

- **Cefnogi a chyfrannu at fentrau / astudiaethau cydweithio rhanbarthol, yn arbennig yng ngoleuni'r trefniadau cynllunio newydd yng Nghymru a chyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS).** Gweithio mewn Partneriaeth ag Awdurdodau De-orllewin Cymru yn casglu data/gwybodaeth ac yn cydweithio ar amrywiol brosiectau. Cynhyrchu prosiectau/asesiadau/adroddiadau 'ehangach na'r lleol' a fydd yn rhoi cyfeiriad strategol i ddatblygwyr, ond bydd hynny'n dibynnu ar gydweithrediad nifer o bartïon.
- **Paratoi a chyhoeddi cynllun ynghylch sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth newydd, ddatblygedig a amlinellwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), 2016.** Mae'r Ddeddf yn gosod mwy o ddyletswydd ar Gynghorau o ran gwella bioamrywiaeth. Mae CNC hefyd wedi peidio â darparu gwasanaethau ac yn ailgyfeirio'r cyfrifoldeb at Gynghorau, heb i adnoddau ychwanegol gael eu darparu. Bydd angen i'r cynllun nodi hyd a lled y dyletswyddau hyn sy'n dod i'r amlwg a bydd angen datblygu protocolau i sicrhau bod yr holl wasanaethau o fewn y cyngor yn cydymffurfio â'r ddyletswydd uwch hon. Bydd hyfforddiant i'r holl staff yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno.
- **Estyn y nawdd i asedau sydd ym mherchnogaeth y cyngor i sicrhau incwm ffïoedd.** Y bwriad yw ceisio sicrhau estyniad i'r contract gyda darparwr trydydd parti presennol er mwyn caniatáu ar gyfer cynllun peilot o nawdd ar gyfer ein hasedau eraill, gan gynnwys goleuadau stryd, parciau, meysydd parcio ac ati. Bydd angen ymgymryd ag ymarferiad caffael llawn er mwyn caniatáu i ni fwyafu ein cyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm.
- **Gwella'r arferion gweithio ar y cyd rhwng meysydd gwasanaeth i ddileu dyblygu.** Mae gwaith eisoes wedi cychwyn i gyfuno gweithgareddau gorfodi a gyflawnwyd yn flaenorol gan wahanol wasanaethau o fewn y cyngor. Bydd y gwaith hwn yn awr yn symud ymlaen i'r lefel nesaf yn dilyn penodi swyddog cartrefi gwag a fydd yn gorfodi'r ddeddfwriaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Gynllunio, Rheoli Adeiladau, Gorfodi Plâu a Iechyd Amgylcheddol i ddelio gydag adeiladau diangen a thir sydd wedi tyfu'n wyllt er mwyn sicrhau bod adeiladau a lleiniau o dir yn dychwelyd i ddefnydd buddiol. Cyflawnir hyn trwy gyfuniad o fesurau, a phan fetho popeth arall, gorfodir eu gwerthu. Bydd hyn nid yn unig yn arwain at gynnydd net yn y llety preswyl mewn lleoliadau cynaliadwy, ond hefyd yn ymdrin â'r anharddu y mae'r adeiladau a'r tir yma'n ei achosi yn y cymunedau y maent yn gysylltiedig â hwy. Mae hyn hefyd yn debygol o arwain at arbedion cost a gwelliannau o ran adennill dyledion i'r cyngor, gan fod yr adeiladau trafferthus hyn yn bendant yn y gorffennol wedi bod yn destun ymchwiliadau helaeth gan amrywiol unedau a fu'n cyflwyno rhybuddion i berchnogion y tir ac mewn rhai amgylchiadau yn cymryd camau uniongyrchol mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Bydd gwerthu'r eiddo yn sicrhau bod y cyngor yn adennill y costau hyn ac yn lleihau'r angen am yr ymchwiliadau yn y lle cyntaf.

**BARN DEFNYDDWYR Y GWASANAETH**

Yn 2015-16 cynhaliwyd arolwg boddhad cwsmeriaid gyda'r nod o asesu barn pobl oedd wedi cael penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 253 o bobl, y cyflwynodd 12% ohonynt ymateb cyflawn neu rannol. Cafwyd mwyafrif yr ymatebion (55%) gan asiantau lleol. Cafwyd 32% gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd cais cynllunio diweddaraf 7% o'r ymatebwyr wedi cael ei wrthod.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am y gwasanaeth cynllunio. Rhoddwyd yr opsiynau ymateb canlynol iddynt:

- Cytuno'n bendant;
- Tueddu i gytuno;
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n bendant.


Dengys Tabl 1 ganran yr ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n bendant' yn achos pob gosodiad, a hynny o ran ein hawdurdod cynllunio ni a Chymru.

**Tabl 1**: **Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â phob gosodiad, 2015-16**

| | % | |
|---|---|---|
| **Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno:** | **Castell-nedd Port Talbot ACLl** | **Cymru** |
| Bod yr ACLl yn gorfodi ei reolau cynllunio'n deg ac yn gyson | 52 | 47 |
| Bod yr ACLl yn rhoi cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus | 52 | 58 |
| Bod yr ACLl yn cynnig help ar hyd y broses, gan gynnwys gydag amodau | 52 | 49 |
| Bod yr ACLl yn ymateb yn brydlon pan fyddai ganddyn nhw gwestiynau | 54 | 58 |
| Eu bod wedi cael gwrandawiad ynghylch eu cais | 56 | 57 |
| Eu bod wedi derbyn gwybodaeth yn rheolaidd ynghylch eu cais | 56 | 49 |
| Eu bod yn gyffredinol fodlon ar sut bu'r ACLl yn delio gyda'u cais. | 50 | 61 |

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddewis tri o nodweddion y gwasanaeth cynllunio, o restr, a fyddai yn eu barn nhw'n eu helpu i gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Dengys Ffigur 1 pa mor aml dewiswyd pob nodwedd fel canran o gyfanswm nifer y dewisiadau. I ni, 'cyfle i siarad â chynllunydd ar ddyletswydd cyn cyflwyno cais' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

**Ffigur 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, ACLl Castell-nedd Port Talbot, 2015-16**




Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd roedd:

- "Mae lefel uchel o amrywiaeth rhwng swyddogion cynllunio, ac mae hynny'n cael effaith ar y broses o gyflwyno cais. Mae rhai ceisiadau'n mynd trwy'r broses mewn modd amserol, strwythuredig, ond nid yw hynny'n wir am eraill." [sic]
- "Yn syml, hoffwn i eu llongyfarch ar eu heffeithlonrwydd"
- "Cefais fod y broses ceisiadau cynllunio'n ddigon syml a bod y tîm cynllunio'n barod eu cymwynas ac yn ymarferol iawn wrth drafod fy adeilad newydd."

**EIN PERFFORMIAD NI 2015-16**

Mae'r adran hon yn manylu ar ein perfformiad yn 2015-16. Mae'n ystyried dangosyddion y Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data arall sydd ar gael er mwyn helpu i greu darlun cynhwysfawr o berfformiad. Lle bo hynny'n briodol, rydyn ni'n cymharu ein perfformiad ni â darlun Cymru gyfan.

Dadansoddir perfformiad ar draws pum agwedd allweddol darparu'r gwasanaeth cynllunio, fel y nodwyd yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Llunio'r cynllun;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltiad; a
- Gorfodi.

## Llunio'r cynllun


Ar 31 Mawrth 2016, roeddem ni'n un o 22 ACLl oedd â chynllun datblygu cyfredol ar waith.

Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Cynllunio Blynyddol nodwyd bod gennym 5.5 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai, fel ein bod ni'n un o 8 ACLl yng Nghymru oedd â'r cyflenwad gofynnol o 5 mlynedd.

## Effeithlonrwydd

Yn 2015-16 fe wnaethom ni benderfynu ar 813 o geisiadau cynllunio, y cymerodd pob un ohonynt, ar gyfartaledd, 67 diwrnod (10 wythnos) i benderfynu arnynt. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 77 diwrnod (11 wythnos) ledled Cymru. Dengys Ffigur 2 yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd gan bob ACLl i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.


**Ffigur 2**: **Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd (diwrnodau) i benderfynu ar geisiadau, 2015-16**



Penderfynwyd ar bron 80% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn y terfynau amser gofynnol. Roedd hyn yn cymharu â 77% ar draws Cymru, ond roedd fymryn yn is na'r targed o 80%. Dim ond 8 o'r 25 ACLl gyrhaeddodd y targed o 80%.


Dengys Ffigur 3 ganran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol ar draws y pedwar prif fath o gais ar gyfer ein ACLl ninnau a Chymru. Mae'n dangos ein bod wedi penderfynu ar 96% o geisiadau perchnogion tai o fewn y terfynau amser gofynnol.

**Ffigur 3**: **Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol, yn ôl math, 2015-16**




Rhwng 2014-15 a 2015-16, fel y dengys Ffigur 4, cododd canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt gennym o fewn y terfynau amser gofynnol o 78%. Gwelwyd cynnydd yng Nghymru hefyd yn ystod y flwyddyn hon.

**Ffigur 4**: **Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol**




Yn ystod yr un cyfnod:

- Gostyngodd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gennym;
- Gostyngodd nifer y ceisiadau a benderfynwyd gennym; a
- Gostyngodd nifer y ceisiadau a gymeradwywyd gennym.

**Ceisiadau mawr**

Penderfynwyd ar 25 o geisiadau cynllunio mawr yn 2015-16, yr oedd 8% (2 gais) ohonynt yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol. Cymerwyd 369 o ddiwrnodau (53 wythnos) ar gyfartaledd i benderfynu ar bob cais (gan gynnwys y rhai oedd yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol). Fel y dengys Ffigur 5, hwn oedd yr ail gyfnod cyfartalog hwyaf o blith holl ACLlau Cymru.


**Ffigur 5**: **Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd (diwrnodau) i benderfynu ar gais mawr, 2015-16**




Penderfynwyd ar 28% o'r ceisiadau mawr hyn o fewn y terfynau amser gofynnol, o'u cymharu â 35% ar draws Cymru.

Dengys Ffigur 6 ganran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol yn ôl y math o gais mawr. Penderfynwyd ar 22% o'n ceisiadau mawr 'safonol', h.y. y rhai nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer, o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn.

**Ffigur 6**: **Canran y ceisiadau Mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn, yn ôl math, 2015-16**





Yn ogystal penderfynwyd ar 1 cais mawr a fu'n destun Cyngor Cyn-Ymgeisio o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ers 2014-15 roedd canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol wedi gostwng o 35%. Mewn cyferbyniad, cynyddodd nifer y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt, tra bod nifer y ceisiadau oedd yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol y penderfynwyd arnynt o fewn y flwyddyn wedi parhau'r un fath.

Dengys Ffigur 7 y tueddiad yng nghanran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a sut mae hynny'n cymharu â Chymru gyfan.

**Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol**




Yn ystod yr un cyfnod:

- Cododd canran y mân geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol o 78% i 83%;
- Cododd canran y ceisiadau perchnogion tai y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol o 88% i 96%; a
- Gostyngodd canran y ceisiadau eraill y penderfynwyd arnynt o fewn y terfynau amser gofynnol o 80% i 79%.


## Ansawdd

Yn 2015-16, gwnaeth ein Pwyllgor Cynllunio 20 penderfyniad ar geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, oedd yn cyfateb i 2% o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt. Ar draws Cymru gwnaed 7% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan y pwyllgor cynllunio.

Aeth 15% o'r penderfyniadau hyn gan aelodau yn erbyn cyngor swyddogion. Roedd hyn yn cymharu â 9% o'r penderfyniadau a wnaed gan aelodau ar draws Cymru. Roedd hyn yn cyfateb i 0.4% o'r holl benderfyniadau ceisiadau cynllunio a aeth yn erbyn cyngor swyddogion; 0.6% ar draws Cymru.

Yn 2015-16 cawsom 10 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, oedd yn cyfateb i 1.2 apêl am bob 100 o geisiadau a ddaeth i law. Hon oedd y drydedd gymhareb isaf o apeliadau o'u cymharu â cheisiadau yng Nghymru. Dengys Ffigur 8 sut mae swm yr apeliadau a ddaw i law wedi newid ers 2014-15 a sut mae hynny'n cymharu â Chymru.


**Ffigur 8**: **Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd fesul 100 o geisiadau cynllunio**




Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o 97% i 96%.

O'r 11 apêl y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 64%. Fel y dengys Ffigur 9, roedd hyn yn is na chanran yr apeliadau a wrthodwyd ledled Cymru gyfan ac roedd yn is na'r targed o 66%.

**Ffigur 9**: **Canran yr apeliadau a wrthodwyd, 2015-16**




Yn ystod 2015-16 ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gostau mewn apêl adran 78.

## Ymgysylltiad

Rydym ni'n:

- un o 24 ACLl a roddodd ganiatâd i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac yn
- un o 20 ACLl oedd â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

Fel y dengys Tabl 2, roedd 52% o'r ymatebwyr i'n harolwg boddhad cwsmeriaid yn 2015-16 yn cytuno bod yr ACLl wedi rhoi cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus.

**Tabl 2**: **Adborth ein harolwg boddhad cwsmeriaid yn 2015-16**


| | % | |
|---|---|---|
| **Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno:** | **ACLl Castell-nedd Port Talbot** | **Cymru** |
| Bod yr ACLl yn rhoi cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus | 52 | 58 |
| Eu bod wedi cael gwrandawiad ynghylch eu cais | 56 | 57 |

## Gorfodi

Yn 2015-16 fe fuom ni'n ymchwilio i 172 o achosion gorfodi, oedd yn cyfateb i 1.2 fesul 1,000 o boblogaeth. Hon oedd y gyfradd bumed isaf yng Nghymru. Ar gyfartaledd, cymerwyd 8 diwrnod i ymchwilio i bob achos gorfodi.

Buom ni'n ymchwilio i 98% o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Ar draws Cymru ymchwiliwyd i 79% o fewn 84 diwrnod.  Dengys Ffigur 10 ganran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws holl ACLlau Cymru.


**Ffigur 10: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod, 2015-16**




Yn ystod yr un cyfnod, datryswyd 168 o achosion gorfodi, gan gymryd, ar gyfartaledd, 60 diwrnod i ddatrys pob achos.

Cymerwyd 91% o'r camau gorfodi hyn o fewn 180 diwrnod i gychwyn yr achos.   Fel y dengys Ffigur 11, hon oedd yr ail ganran uchaf yng Nghymru.

**Ffigur 11: Canran yr achosion gorfodi a ddatryswyd o fewn 180 diwrnod, 2015-16**



ATODIAD A - FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Castell-nedd Port Talbot Y LLYNEDD | ACLl Castell-nedd Port Talbot ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llunio'r cynllun** | | | | | | |
| A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar waith oddi mewn i gyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes |
| Gwyriad y gwaith o baratoi'r CDLl o'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd | <12 | 13-17 | 18+ | 47 | Amh | Amh |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu wedi i'r CDLl gael ei fabwysiadu | Ydynt | | Nac ydynt | Ydynt | Amh | Amh |
| Cyflenwad cyfredol yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dir ar gyfer tai, mewn blynyddoedd | >5 | | <5 | 3.9 | 2.5 | 5.5 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | |
| Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | Heb eu pennu | Heb eu pennu | Heb eu pennu | 35 | 35 | 28 |
| Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar geisiadau "mawr", mewn diwrnodau | Heb eu pennu | Heb eu pennu | Heb eu pennu | 212.7 | 79 | 369 |
| Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | >80 | 60.1-79.9 | <60 | 76.7 | 78 | 80 |
| Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar yr holl geisiadau, mewn diwrnodau | <67 | 67-111 | 112+ | 77.2 | 55 | 67 |
| **Ansawdd** | | | | | | |
| Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion | <5 | 4.9-8.9 | 9+ | 9.0 | 6 | 15 |
| Canran yr apeliadau a wrthodwyd | >66 | 55.1-65.9 | <55 | 66.5 | 56 | 66 |
| Y ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | CYFARTALEDD CYMRU | ACLl Castell-nedd Port Talbot Y LLYNEDD | ACLl Castell-nedd Port Talbot ELENI |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltiad** | | | | | | |
| Ydy'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio? | Ydy | | Nac ydy | Ydy | Nac ydy | Ydy |
| Oes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol swyddog ar ddyletswydd i ddarparu cyngor i aelodau o'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes | Oes | - | Oes |
| Oes gan wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio, y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad iddi, olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Rhannol | Nac oes | Oes | Oes | Oes |
| **Gorfodi** | | | | | | |
| Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (lle penderfynwyd a fu achos o dorri'r rheolau cynllunio, ac os felly, lle penderfynwyd a yw camau gorfodi'n briodol) o fewn 84 diwrnod | Heb eu pennu | Heb eu pennu | Heb eu pennu | 79 | 82 | 98 |
| Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi | Heb eu pennu | Heb eu pennu | Heb eu pennu | 88 | 2 | 8 |
| Canran yr achosion gorfodi lle cymerir camau gorfodi neu lle caniateir cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod i gychwyn yr achos (yn yr achosion hynny lle roedd yn ymarferol cymryd camau gorfodi)? | Heb eu pennu | Heb eu pennu | Heb eu pennu | 73 | 88 | 91 |
| Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi | Heb eu pennu | Heb eu pennu | Heb eu pennu | 210 | 71.5 | 60 |

## ADRAN 1 – LLUNIO'R CYNLLUN

| Dangosydd | 01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol ar waith oddi mewn i gyfnod y cynllun? | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Mae cynllun datblygu (CDLl neu CDU) ar waith ac oddi mewn i gyfnod y cynllun. | AMH | Nid oes cynllun datblygu ar waith (gan gynnwys lle mae'r cynllun wedi dod i ben) |

| Perfformiad yr Awdurdod | Oes |
|---|---|

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr 2016 ac mae'n parhau tan 2026. Bu'n destun archwiliad manwl fel rhan o Archwiliad Cyhoeddus 13 wythnos. Cafwyd ymrwymiad aruthrol gan y staff Cynllunio i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gefnogi'n ddigonol gan sylfaen gadarn o dystiolaeth oedd yn dangos dyheadau uchel ond cyflawnadwy'r cyngor. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ychwanegu manylion digonol at y rhaglen fonitro a fydd yn bwydo i'r adolygiad blynyddol cyntaf.

Er ein bod ni, yn lleol, yn ymwybodol o ba mor galed mae'r tîm cynllunio'n gweithio i gyflawni'r uchod, cydnabuwyd hynny hefyd gan Staff Cynllunio Llywodraeth Cymru, a ysgrifennodd lythyr at yr Awdurdod yn cymeradwyo gwaith caled y staff Cynllunio o ran casglu tystiolaeth a'u dull gweithredu proffesiynol yn yr Archwiliad Cyhoeddus.

| Dangosydd | 02. Gwyriad y gwaith o baratoi'r CDLl o'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Mae'r CDLl yn cael ei symud ymlaen o fewn 12 mis i'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol | Mae'r CDLl yn cael ei symud ymlaen o fewn 12-18 mis i'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol | Mae'r CDLl yn cael ei symud ymlaen dros 18 mis yn hwyrach na'r dyddiadau a bennwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol |

| Perfformiad yr Awdurdod | AMH |
|---|---|

| Dangosydd | 03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu wedi i'r CDLl gael ei fabwysiadu | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen Gwella"** |
| Mae'n bryd cael AMB, ac mae wedi cael ei baratoi | | Mae'n bryd cael AMB, ond nid yw wedi cael ei baratoi |

| Perfformiad yr Awdurdod | AMH |
|---|---|

Fel y manylwyd uchod, craffwyd ar amlinelliad o'r trefniadau monitro ar gyfer pob un o'r polisïau CDLl yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Mae'r Cyngor nawr wrthi'n ychwanegu manylion at y fframwaith hwn, gyda'r bwriad o gasglu data ar gyfer yr AMB cyntaf sydd i'w gyflwyno ym mis Hydref 2017.

| Dangosydd | 04. Cyflenwad cyfredol yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dir ar gyfer tai, mewn blynyddoedd | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen Gwella"** |
| Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir o fwy na 5 mlynedd ar gyfer tai | | Mae gan yr awdurdod gyflenwad tir o lai na 5 mlynedd ar gyfer tai |

| Perfformiad yr Awdurdod | 5.5 |
|---|---|

O ystyried mai dim ond yn ddiweddar y mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r CDLl, buasai'n siomedig iawn sicrhau cyflenwad tir o lai na 5 mlynedd ar gyfer tai. Gwaetha'r modd, er bod llawer o'r adeiladwyr tai wedi cadarnhau fel rhan o'r Archwiliad Cyhoeddus bod modd cyflawni eu safleoedd, ac y byddant hefyd yn darparu'r Rhwymedigaethau Cynllunio angenrheidiol i gydymffurfio â pholisïau'r CDLl, ers hynny maent wedi newid eu safbwynt ac yn dadlau ynghylch dichonoldeb. Mae hyn yn ei dro yn arafu'r broses o benderfynu ar lawer o geisiadau, a allai yn ei dro danseilio ein cyflenwad tir oherwydd ei fod yn dibynnu ar gyfraddau cwblhau, ac na ellir cwblhau tai heb ganiatâd cynllunio.

Nid mater unigryw i Gastell-nedd Port Talbot yw hwn ac mae'n destun darn o waith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein cyflenwad tir hefyd yn dioddef effaith nifer o gyfyngiadau naturiol yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys perygl llifogydd, halogiad a thopograffi, gyda'r olaf yn effeithio ar hygyrchedd safleoedd, ac yn sgîl hynny mae'n peri anhawster, os yw hyd yn oed yn bosibl, sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau symudedd cynhwysol, y ceir croesgyfeiriadau atynt yn TAN 12 a TAN 18.

**ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD**

| Dangosydd | 05. Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 28 |
|---|---|

Mae'r perfformiad hwn yn siomedig.

O ganlyniad, mae adolygiad ar waith i nodi'r gofynion o fewn y gwasanaeth a chapasiti gwahanol aelodau o staff i gyflawni'r gofynion gwasanaeth hynny. Gall hyn alw am ailstrwythuro mewnol. Sicrhau bod y capasiti'n cael ei gyfeirio tuag at y gofynion pennaf.

| Dangosydd | 06. Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar geisiadau "mawr", mewn diwrnodau | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 369 |
|---|---|
| Gweler yr ymateb i ddangosydd 05. | |

| Dangosydd | 07. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen Gwella”** |
| Penderfynir ar fwy nag 80% o'r ceisiadau o fewn y terfyn amser statudol | Penderfynir ar 60-80% o'r ceisiadau o fewn y terfyn amser statudol | Penderfynir ar lai na 60% o'r ceisiadau o fewn y terfyn amser statudol |

| Perfformiad yr Awdurdod | 80 |
|---|---|
| Bu'r Awdurdod gynt ar frig y siartiau perfformiad o ran cydymffurfio â'r cyfnod statudol. Mae hyn wedi gostwng ers 2013 yn dilyn yr achos cychwynnol o golli staff  Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar i'r weithdrefn wedi arwain at welliant sylweddol yn y perfformiad cyffredinol, sydd wedi'n symud yn ôl i'r trydydd safle yn y tablau perfformiad.  Fodd bynnag, mae angen cynnal hyn neu hyd yn oed ei wella wrth symud ymlaen. | |

| Dangosydd | 08. Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i benderfynu ar yr holl geisiadau, mewn diwrnodau | |
|---|---|---|
| **“Da”** | **“Gweddol”** | **“Angen Gwella”** |
| Llai na 67 diwrnod | Rhwng 67 a 111 diwrnod | 112 diwrnod neu fwy |

| Perfformiad yr Awdurdod | 67 |
|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot oedd un o'r Cynghorau cyntaf yng Nghymru i fesur perfformiad o un pen i'r llall.  Digwyddodd hynny o ganlyniad i adolygiad gwasanaeth yn ôl yn 2008 a, gwaetha'r modd, ers hynny mae rhai o'r egwyddorion meddwl ynghylch systemau a ffurfiodd sail ar gyfer yr adolygiad hwnnw wedi cael eu gwanhau a chyflwynwyd amodau system ychwanegol yn dilyn y newidiadau gweithdrefnol a gyflwynwyd o dan Ddeddf newydd Cynllunio (Cymru) 2015.<br><br>Mae adolygiad ar waith, felly, i liflinio gweithdrefnau mewnol, i wella'r cyfathrebu rhwng staff, ac i leihau cymhlethdod adroddiadau cynllunio.  Cydnabyddir bod yr olaf yn ddarn o waith sydd mewn llaw gan POSW, ond nid ydym yn barod i aros i hyn ddod i ben, ac rydym yn bwrw ymlaen â’n templedi symlach ein hunain.<br><br>Amcan hyn yw cynyddu'r capasiti i swyddogion, lliflinio'r broses a gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth gyda golwg ar leihau'r amser o un pen i'r llall. | |

**ADRAN 3 - ANSAWDD**

| Dangosydd | 09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion | |
|---|---|---|
| "Da" | "Gweddol" | "Angen Gwella" |
| Llai na 5% o'r penderfyniadau | Rhwng 5% a 9% o'r penderfyniadau | 9% neu fwy o'r penderfyniadau |

| Perfformiad yr Awdurdod | 15 |
|---|---|
| Roedd gweld canlyniad y dangosydd perfformiad hwn yn peri peth siom. Ar ôl gwirio'r ffigurau sy'n bwydo i'r dangosydd hwn, roedd yn amlwg mai dim ond 3 chais y penderfynwyd arnynt yn groes i argymhelliad swyddogion yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ganran uchel wedi digwydd o ganlyniad i'r ffaith bod lefelau uchel iawn o ddirprwyo i swyddogion wedi golygu mai dim ond 20 cais a benderfynwyd gan y Pwyllgor y llynedd, gan i'r 793 o geisiadau eraill gael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig. Dadleuir felly ei bod hi'n annheg arddangos y Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) hwn ar ffurf canran, ac y dylid o bosib ei nodi ar ffurf cyfanrif yn y blynyddoedd i ddod.<br><br>Er gwaethaf yr uchod, rhagdybir bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu i ddangos cadernid y gweithdrefnau gwneud penderfyniadau, ac i asesu a oes risg uchel i ddatblygwyr.<br><br>Er gwaethaf y ffaith mai 15% oedd y canlyniad, cadarnheir mai 0.37% yn unig o gyfanswm nifer y ceisiadau y penderfynodd y Cyngor arnynt oedd yn groes i argymhelliad swyddogion. | |

| Dangosydd | 10. Canran yr apeliadau a wrthodwyd | |
|---|---|---|
| "Da" | "Gweddol" | "Angen Gwella" |
| Mae mwy na 66% (dau draean) o'r penderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl | Mae rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl | Mae llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl |

| Perfformiad yr Awdurdod | 64 |
|---|---|
| Mae'n siom gweld bod nifer yr apeliadau a amddiffynwyd yn llwyddiannus fymryn yn is na 66%. Mae'r cyngor hwn yn derbyn nifer isel iawn o apeliadau - 11 yn unig yn ystod y cyfnod hwn, y gwrthodwyd 7 ohonynt. Derbyniwyd apêl hefyd yn erbyn Gorchymyn Amddiffyn Coeden, a amddiffynwyd yn llwyddiannus, a phetai'r apêl honno wedi cael ei chynnwys yn y ffigurau cyffredinol, byddai wedi arwain at gyfradd lwyddo o 68%.<br><br>Serch hynny, rwyf wedi fy modloni bod y penderfyniadau a wneir gan y cyngor hwn yn gadarn ac yn adlewyrchu'r holl ystyriaethau cynllunio pwysig perthnasol sy'n briodol i bob achos. Serch hynny, ein nod fydd gwella'r broses hon yn barhaus. | |

| Dangosydd | 11. Y ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gadarnhawyd yn y cyfnod adrodd | |
|---|---|---|
| "Da" | "Gweddol" | "Angen Gwella" |

| | | |
|---|---|---|
| Ni ddyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod hwn mewn apêl | Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn un achos apêl | Dyfarnwyd costau yn erbyn yr awdurdod mewn dau achos apêl neu fwy |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 0 |
|---|---|
| Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, dim ond unwaith y dyfarnwyd costau yn ein herbyn fel Awdurdod, sy'n dangos bod gennym hanes o ddarparu penderfyniadau cadarn, y gellir eu hamddiffyn. | |

**ADRAN 4 – YMGYSYLLTIAD**

| **Dangosydd** | **12. Ydy'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen Gwella"** |
| Gall aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio | | Ni all aelodau o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Gallant |
|---|---|
| Ym mis Tachwedd 2014 y cyflwynwyd hyn, ac er gwaethaf rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfle i siarad ar ein gwefan ac ar agendâu'r pwyllgorau, hyd yma bu'r defnydd ohono'n gyfyngedig iawn. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwella'r protocol i'w wneud yn fwy eglur fyth i aelodau o'r cyhoedd a chynghorau cymuned, gan eu hannog i fod yn bresennol yn y Pwyllgorau Cynllunio a chymryd rhan ynddynt. Mae'r darn hwn o waith yn cael ei wneud ochr yn ochr ag adolygiad o'r pwerau dirprwyedig. | |

| **Dangosydd** | **13. Oes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol swyddog ar ddyletswydd i ddarparu cyngor i aelodau o'r cyhoedd?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | | **"Angen Gwella"** |
| Gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd | | Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Gallant |
|---|---|
| Mae manylion cyswllt yr holl swyddogion achosion ar gael i'r cyhoedd ar y wefan ac wedi'u cynnwys ar y llythyrau a anfonir at ymgeiswyr, asiantau ac ymgyngoreion. Mae'r holl swyddogion ar gael i'r cyhoedd drwy'r amser yn ystod y diwrnod gwaith, oni bai eu bod allan ar y safle neu'n absennol o'r gwaith, ac o dan yr amgylchiadau hynny bydd swyddog arall yn ceisio cynorthwyo'r cwsmer hyd eithaf eu gallu. Er nad swyddog ar ddyletswydd yw hyn yn fanwl gywir, bernir bod hygyrchedd yr holl swyddogion yn rhagori cryn dipyn ar y gwasanaeth a geid gan swyddog ar ddyletswydd. | |

| **Dangosydd** | **14. Oes gan wefan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gofrestr ar-lein o geisiadau gynllunio, y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad iddi, olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)?** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r holl ddogfennau ar gael ar-lein | Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, a rhaid ceisio mynediad i'r dogfennau eraill yn uniongyrchol | Nid oes gwybodaeth am geisiadau cynllunio'n cael ei chyhoeddi ar-lein |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | Ydynt |
|---|---|
| Bu'r gwasanaeth hwn ar waith ers nifer o flynyddoedd, ac mae ein cydweithwyr yn yr is-adran TG yn gweithio'n rheolaidd i wella golwg a theimlad y wefan a hygyrchedd yr wybodaeth a geir arni. Fodd bynnag, cyfyngir ar hynny gan ansawdd system swyddfa gefn cynllunio, ac felly mae'r cyngor wrthi ar hyn o bryd yn caffael system amgen gyda chydweithwyr o Abertawe. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella'r system weithredu ar gyfer ein staff a'n cwsmeriaid. | |

**ADRAN 5 – GORFODI**

| **Dangosydd** | **15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (lle penderfynwyd a fu achos o dorri'r rheolau cynllunio, ac os felly, lle penderfynwyd a yw camau gorfodi'n briodol) o fewn 84 diwrnod** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| **Perfformiad yr Awdurdod** | 98 |
|---|---|
| Cyflawnwyd y perfformiad rhagorol hwn er gwaethaf y ffaith mai dim ond 2 swyddog gorfodi sydd gennym ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan, gyda swyddog gorfodi ychwanegol ar gyfer gorfodi mwynau a gwastraff. Mae swyddogion wedi sicrhau'r perfformiad uchel hwn drwy gyflawni enillion cyflym wrth ymateb i fân achosion o dorri'r rheolau neu gwynion o fewn cyfnod byr iawn o amser; yn sgîl hynny mae trosiant cyflym yn achos y cwynion hyn.<br><br>Mae'r is-adran Orfodi hefyd yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth Rheoli Adeiladau, gyda'r holl ddatblygiadau aelwydydd a gyflwynir i'n his-adran Rheoli Adeiladau yn cael eu gwirio gan yr Archwilwyr Adeiladau wrth iddynt gyflawni eu harchwiliadau. Os nodant fod diffyg cydymffurfio â'r cynlluniau cymeradwyo, byddant yn rhoi gwybod i'r timau Gorfodi Cynllunio, a fydd wedyn yn gallu ymchwilio i achosion o'r fath. Mae'r gorfodi rhagweithiol hwn ar y cyd yn sicrhau bod diffyg cydymffurfio yn cael ei nodi ac yn derbyn sylw yn gyflym. Nid yw hynny, fodd bynnag, yn cynnwys y datblygiadau sy'n cael eu harchwilio gan Arolygwyr Cymeradwyo y tu allan i'r cyngor.<br><br>Yn ogystal â'r uchod ac fel y cyfeiriwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae gweithio ar y cyd wedi arwain at gyfuno pwerau gorfodi ar draws Cynllunio, Rheoli Adeiladau, Rheoli Plâu a Iechyd Amgylcheddol, ac unwaith bydd hynny'n gwbl weithredol, dylai leihau dyblygu, cynyddu capasiti a gwella perfformiad ymhellach. | |

| **Dangosydd** | **16. Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi** | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 8 |
|---|---|
| Gweler yr ymateb i ddangosydd 15. | |

| Dangosydd | 17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerir camau gorfodi neu lle caniateir cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod i gychwyn yr achos (yn yr achosion hynny lle roedd yn ymarferol cymryd camau gorfodi) | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 91 |
|---|---|
| Gweler yr ymateb i ddangosydd 15. | |

| Dangosydd | 18. Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi | |
|---|---|---|
| **"Da"** | **"Gweddol"** | **"Angen Gwella"** |
| Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi | Targed i'w feincnodi |

| Perfformiad yr Awdurdod | 60 |
|---|---|
| Gweler yr ymateb i ddangosydd 15. | |

## ADRAN 6 – DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Defnyddir y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy i fesur cynnydd yn erbyn amcanion cynllunio cynaliadwy cenedlaethol, a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid beth yw rôl a chwmpas y system gynllunio wrth gyflawni amcanion ehangach. Bydd yr wybodaeth hefyd yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol, i'w helpu i ddeall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio a helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

| Adroddiadau'r Awdurdod | |
|---|---|
| • Ar hyn o bryd cesglir yr wybodaeth hon â llaw gan bob swyddog achosion. Mae templed safonol y mae angen i'r swyddog achosion ei lenwi ar ôl penderfynu ar y cais a chyn cyflwyno'r hysbysiad ynghylch y penderfyniad. Er y cydnabyddir bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno naill ai'n electronig trwy'r porth neu ar ffurf copi caled, sef ffurflen gais bapur. Yn ddieithriad mae'r wybodaeth hon yn newid yn ystod proses y cais, ac ar hyn o bryd nid oes mecanwaith ar gyfer diweddaru'r wybodaeth hon yn awtomatig ar ein system swyddfa gefn. Ymhellach, am resymau technegol mewnol, nid yw ein system swyddfa gefn wedi'i hintegreiddio â'r Porth Cynllunio, ac felly mae'r holl ddata'n cael ei fewnbynnu â llaw i'n system. | |

| Dangosydd | DC1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) o ddatblygiadau economaidd newydd y rhoddwyd ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | **ar eu cyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.** |

| **Caniatawyd (metrau sgwâr)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 3,129 |

| **Gwrthodwyd (metrau sgwâr)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

Dengys y ffigurau uchod fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan roi sylw i'r Cynllun Datblygu.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **DC2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.** |

| **Caniatawyd (nifer y ceisiadau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 5 |

| **Caniatawyd (MW o ynni a gynhyrchwyd)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 33 |

Dengys hyn fod y Cyngor yn parhau i gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn CNPT ar safleoedd priodol. Gwelir hyn o'r ffaith bod 2 brosiect NSIP ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa fawr yng nghyswllt Lagŵn Llanw Bae Abertawe a gorsaf bŵer TATA wedi cael eu cefnogi gan y cyngor. Mae ystod o ddatblygiadau adnewyddadwy graddfa ganolig gwynt, dŵr ac ynni solar hefyd wedi cael eu cefnogi.

Yn ogystal â'r uchod mae un o'r ddwy Ardal Gefnogi Strategol ar gyfer datblygiadau gwynt ar raddfa fawr yn prysur nesáu at y targed o ran cynhyrchu ynni.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **DC3. Nifer yr Anheddau y rhoddwyd Caniatâd Cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.** |

| **Tai Marchnad (nifer yr unedau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 157 |

| **Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 28 |

Er nad yw'r ffigur cyffredinol ar gyfer tai marchnad newydd yn arwyddocaol, mewn cyfnod economaidd heriol, mae'r awdurdod hefyd wedi gallu sicrhau tai fforddiadwy ar ddatblygiadau o'r fath, er gwaethaf materion dichonoldeb sylweddol yn CNPT.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | **DC4. Caniatâd Cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd ar gyfer datblygu ar ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 yn ystod y flwyddyn.** |

| Nifer yr unedau preswyl (a hefyd yr hectarau o unedau amhreswyl) NAD OEDDENT yn bodloni holl brofion TAN 15 y RHODDWYD caniatâd iddynt | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 6 |

| Nifer yr unedau preswyl (a hefyd yr hectarau o unedau amhreswyl) nad oeddent yn bodloni holl brofion TAN 15 y GWRTHODWYD caniatâd iddynt ar sail risg llifogydd | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| Nifer yr unedau preswyl (a hefyd yr hectarau o unedau amhreswyl) oedd yn BODLONI holl brofion TAN 15 y RHODDWYD caniatâd ar eu cyfer | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 7 |

Mae'r Cyngor yn parhau i benderfynu ar geisiadau gan roi sylw dyledus i TAN15, gan ganiatáu unedau preswyl ar dir C1 ac C2 dim ond lle mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i fodloni y byddai effeithiau'r datblygiad yn cael eu lliniaru'n ddigonol.

| Dangosydd | DC5. Yr ardal o dir (hectarau) lle rhoddwyd Caniatâd Cynllunio ar gyfer datblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a tir maes glas yn ystod y flwyddyn. |
|---|---|

| Tir a ddatblygwyd yn flaenorol (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 33 |

| Tir maes glas (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 13 |

Mae'r Awdurdod yn parhau i hybu a chefnogi datblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Dylid nodi hefyd bod y cyfnod hwn yn adlewyrchu adeg pan oeddem yn nesáu at ddiwedd y Cynllun Datblygu Unedol, pan oedd tir heb ei ddatblygu oedd wedi'i ddyrannu neu dir y gellid ei ddatblygu ac a oedd o fewn terfynau anheddau yn gyfyngedig.

Ers hynny mae'r CDLl wedi cael ei fabwysiadu ac mae eto'n hybu ailddatblygu cynaliadwy ar dir llwyd trwy ddyrannu ardaloedd adfywio strategol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni cyfraddau twf uchelgeisiol y cyngor, cynhwyswyd elfen o dir maes glas hefyd ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

| Dangosydd | DC6. Yr ardal o fannau agored cyhoeddus (hectarau) a fyddai'n cael ei cholli a'i hennill o ganlyniad i ddatblygiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter. |
|---|---|

| Man Agored a gollwyd (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| Man Agored a enillwyd (hectarau) | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| |
|---|
| Mae'r Cyngor wedi bod yn ofalus iawn i sicrhau nad yw mannau agored cyhoeddus yn cael eu colli o ganlyniad i ddatblygu. Cydnabyddir, fodd bynnag, bod diffyg enillion net hefyd yn y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hynny'n bennaf o ganlyniad i ddichonoldeb ac yn lle hynny defnyddiwyd y cyfraniadau a sicrhawyd gan ddatblygwyr i wella mannau agored sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na chreu rhai newydd.<br><br>Mae'r cyngor fel endid mwy o faint hefyd mewn sefyllfa anodd gan fod y gyllideb sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw mannau agored cyhoeddus wedi cael ei thorri, ac er y gall datblygwyr dalu swm wedi'i gymudo ar gyfer cynnal a chadw am gyfnod o 10 mlynedd yn achos unrhyw fan agored cyhoeddus a greir ganddynt, ni ellir anwybyddu'r costau cynnal a chadw a rheoli y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw o 10 mlynedd. O ganlyniad, mae'r cyngor yn amharod i fabwysiadu mannau agored cyhoeddus ychwanegol, ac yn hytrach mae'n annog gwella'r cyfleusterau presennol os yw'n hygyrch i'r datblygiadau dan sylw. |

| **Dangosydd** | **DC7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) y cytunwyd arnynt o ddatblygiadau newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y chwarter er mwyn darparu seilwaith cymunedol.** |
|---|---|

| **Sicrhawyd trwy gytundebau Adran 106 (£)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 224,140 |

| **Sicrhawyd trwy'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol (£)** | |
|---|---|
| **Data'r Awdurdod** | 0 |

| |
|---|
| Mae'r cyngor wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol ddiwygiedig ynghylch Rhwymedigaethau Cynllunio, sy'n dangos yn glir y trothwyon newydd a'r fformwlâu sy'n helpu i gyfrifo'r uchod. Dylai hyn leihau/ddileu'r ansicrwydd i ddatblygwyr yng nghyswllt costau datblygu, gan eu galluogi i adlewyrchu'r costau hyn yn briodol yn y pris a dalant am y tir. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y cyfraniadau'n gwella wrth symud ymlaen.<br><br>Hefyd mae gennym bellach swyddog wedi'i neilltuo ar gyfer cyfrifo cyfraniadau, olrhain datblygiadau, casglu taliadau, a hefyd fonitro gwariant parhaus y taliadau hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod y cymunedau y mae datblygiadau'n effeithio arnynt yn elwa o'r cyfraniadau a gyd-drafodwyd ar eu rhan. |